

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Chwefror 2023

## 1. Cyflwyniad

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 mewn perthynas â'r meysydd polisi yn ein cylch gorchwyl.
- Ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid, ac adroddiadau pwyllgorau eraill y Senedd, bwriedir i'r adroddiad hwn lywio dadl y Senedd ar y gyllideb ddrafft, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 7 Chwefror 2023.
- Byddem yn croesawu ymateb i'n hadroddiad a'n hargymhellion.

## Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

- Ar 13 Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24. Cyhoeddwyd y setliad Llywodraeth Leol dros dro ar 14 Rhagfyr 2022.
- Y Prif Grwpiau Gwariant ("MEG") sy'n dod o fewn ein cylch gorchwyl yw Cyllid a Llywodraeth Leol a Newid Hinsawdd. Y meysydd buddsoddi penodol o fewn y MEGs hyn sy'n berthnasol i'n cylch gorchwyl yw Llywodraeth Leol a Thai.

## Dull y Pwyllgor o graffu

- Ar 12 Ionawr 2023, clywsom dystiolaeth lafar gan gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLILC") a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r setliad Llywodraeth Leol dros dro ac agweddau ar y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â llywodraeth leol.



**7.** Ar 19 Ionawr, clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas ag agweddau ar y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â thai.

## 2. Llywodraeth Leol

### Cyd-destun ariannol llywodraeth leol

**8.** Mae'r cynnydd mewn costau ynni, nwyddau a deunyddiau wedi rhoi straen aruthrol ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r pwysau ariannol hwn yn ychwanegol at yr heriau presennol sy'n wynebu awdurdodau lleol, gan gynnwys chwyddiant cyflog, cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau cost uchel (megis gofal cymdeithasol) ac, wrth gwrs, adfer ar ôl pandemig byd-eang. Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac Arweinydd CLILC, fod y pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol yn y flwyddyn ariannol hon a'r nesaf ar raddfa nas gwelwyd mo'i thebyg yn y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd y Cynghorydd Morgan wrthym:

*"If you consider food costs for things like school meals, our care home services and meals on wheels, food costs have gone up anything between 14 and 25 per cent. Our gas and energy costs are predicted for this financial year for local authorities in Wales to go up around 355 per cent for gas, and well over 100 per cent for electric. So, there are some real pressures on local authorities. I know every year we talk about the pressures on local government, whether it's service demand such as social services in particular, but this year I think it is quite exceptional."*<sup>1</sup>

**9.** Dywedodd y Cynghorydd Morgan wrthym hefyd fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu gorwariant cyfunol gwerth £200 miliwn yn y flwyddyn ariannol bresennol, felly byddant yn defnyddio arian wrth gefn. Ychwanegodd, er gwaethaf setliad da iawn gan Lywodraeth Cymru, bydd cryn bwysau ar awdurdodau lleol i osod cyllideb gytbwys y flwyddyn nesaf.<sup>2</sup>

**10.** Dywedodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn, fod awdurdodau lleol bellach yn "gwneud toriadau ar wasanaethau sydd wedi cael eu torri'n barod, felly mae'r opsiynau yn brin iawn".<sup>3</sup> Aeth y Cynghorydd Medi ymlaen i ddweud:

*"Beth fuaswn i'n dweud yw mai beth mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau yn trio'i wneud eleni ydy trio balanso'r llyfrau wrth ddefnyddio arian wrth gefn,*

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 3

<sup>2</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 4

<sup>3</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 20

*wrth wneud mân doriadau a chodi'r dreth gyngor yn barod erbyn 2024-25. Yr adeg yna, dwi'n meddwl, y byddwn ni'n gweld y gwir doriadau yna i wasanaethau. So, beth rydyn ni'n mynd i'w weld ydy awdurdodau'n defnyddio arian wrth gefn er mwyn paratoi i'r toriad caled yna sydd i ddod, achos, fel roeddwn i'n nodi gynnau, rydyn ni i gyd yn rhagweld y bydd y flwyddyn nesaf yn waeth arnom ni eto."*<sup>4</sup>

## Ein barn ni

---

**11.** Mae'r ffigur gorwariant o £200 miliwn ar gyfer 2022-23 a adroddwyd i ni gan lywodraeth leol yn peri pryder i ni, ac rydym yn cydnabod bod awdurdodau wedi wynebu cronïad o bwysau dros y blynyddoedd diwethaf, sydd eisoes wedi arwain at doriadau sylweddol i wasanaethau. Nodwn, yn wahanol i gyfrff cyhoeddus eraill, fod gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i fantoli eu cyfrifon bob blwyddyn, ac rydym yn pryderu nad yw dibynnu ar gronfeydd wrth gefn i dalu am orwariant mor uchel yn ateb cynaliadwy hirdymor.

**12.** Testun pryder arbennig yw bod awdurdodau lleol eisoes yn ofni'r adnoddau a fydd ar gael ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol. Nodwn fod y dyraniad o gyllid refeniw craidd lefel Cymru dangosol ar gyfer 2024-25 yn £5.69 biliwn, sy'n cyfateb i gynnydd o £169 miliwn (3.1 y cant). Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y ffigur hwn yn ddangosol ac yn ddibynnol ar yr amcangyfrifon presennol o incwm NDR ac unrhyw gyllidebau 2024-25 y DU, ond rydym yn pryderu na fydd hyn yn ddigonol o bosibl pe bai'r pwysau presennol yn parhau i gynyddu. Credwn ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn gwneud gwaith nawr i baratoi ar gyfer pwysau parhaus ar gyllidebau awdurdodau lleol er mwyn lliniaru mwy o doriadau i wasanaethau sydd eisoes dan bwysau.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n gweithio gyda llywodraeth leol i baratoi ar gyfer pwysau parhaus ar awdurdodau lleol ym mlynyddoedd ariannol yn y dyfodol.

## Y setliad llywodraeth leol dros dro

### Cyllid Allanol Cyfun

---

**13.** Ar 14 Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2023-24. Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y cyllid craidd cyffredinol (Cyllid Allanol Cyfun) ar gyfer llywodraeth leol yn 2023-24 yw £5.5 biliwn, sef cynnydd o 7.9 y cant ar

---

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 97

sail tebyg am debyg o gymharu â 2022-23. Mae hyn yn cyfateb i £406 miliwn yn ychwanegol mewn cyllid cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol.

**14.** Yn 2022-23, roedd y cynnydd cyffredinol yn y Cyllid Allanol Cyfun yn 9.4 y cant ar sail tebyg am debyg, neu £437 miliwn. Mae'r Cyllid yn cynnwys Grant Cynnal Refeniw ("RSG") awdurdodau lleol a'r rhan y gellir ei dosbarthu o ardrethi annomestig ("NDR").

**15.** Mae'r Gweinidog yn nodi yn ei phapur tystiolaeth, mewn ymgais i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, "n[a]d ystyriwyd unrhyw doriadau i'r setliad llywodraeth leol fel rhan o ymarfer ehangach Llywodraeth Cymru i addasu cyllidebau at ddibenion eraill."<sup>5</sup>

**16.** Cydnabu'r Gweinidog y bydd rhaid i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau anodd iawn er mwyn rheoli'r gyllideb, ond ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud:

*"...the best possible job that we could have done in the circumstances, and, obviously, it builds on a good settlement last year and in the previous years before that as well."*<sup>6</sup>

**17.** Dywedodd y Cynghorydd Morgan wrthym fod llywodraeth leol wedi cael setliad cymharol dda, gyda'r cynnydd cyfartalog yn fwy cadarnhaol o lawer na'r disgwyl.<sup>7</sup> Fodd bynnag, ychwanegodd y Cynghorydd Morgan:

*"...there's no getting away from the fact that there will be some tough decisions. There is a balance to be struck between council tax increases at a significant rate, making savings where possible without impacting on services, but, undoubtedly, there will be other cuts to services, or service changes that, I think I'm fair in saying, all 22 local authorities will have to consider to a certain extent."*<sup>8</sup>

**18.** Aeth y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ymlaen i ddweud wrthym:

*"... the settlement was incredibly welcome; it was more than we were talking about at the start, and I think it demonstrates that Welsh Government do value the services that we provide. It doesn't make the challenge easy, but it gives us a fighting chance."*<sup>9</sup>

---

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2023, [papur 2](#)

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 180

<sup>7</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 17

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 18

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 39

---

**19.** Dywedodd Prif Weithredwr CLILC wrthym:

*"In other circumstances, at any point over the last 20 years, a 7.9 per cent average settlement increase would seem incredibly generous.[ ] Authorities would have been really delighted with that situation. But, these are unprecedented circumstances. [ ] When inflation is 10.5 per cent or 11.5 per cent, a settlement of 7.9 per cent doesn't plug the gap. They have to look at using their reserves or balances, increasing council tax, and cuts in services. None of these choices are particularly palatable, and they are very difficult for authorities."*<sup>10</sup>

**Dosbarthiad awdurdodau lleol**

**20.** O ganlyniad i'r cynnydd cyffredinol o 7.9 y cant yn y setliad, ni ddisgwylir i unrhyw awdurdod gael llai na chynnydd o 6.5 y cant yn ei ddyraniad cyllidebol ar gyfer 2023-24. Mae hyn yn uwch na'r dyraniadau dangosol yn 2022-23 a ddangosodd gynnydd cyffredinol o 3.5 y cant yn y Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer 2023-24, a 2.4 y cant pellach yn 2024-25.

**21.** Yr awdurdodau a fydd yn derbyn y cynnydd mwyaf yn eu dyraniad yw Sir Fynwy (9.3 y cant), Caerdydd (9.0 y cant) a Bro Morgannwg a Chasnewydd (y ddau yn 8.9 y cant). Blaenau Gwent fydd yn derbyn y cynnydd lleiaf, sef 6.5 y cant. Yn gyffredinol, bydd 12 o awdurdodau'n cael cynnydd sydd gyfwerth â'r cyfartaledd neu'n uwch na'r cyfartaledd y flwyddyn nesaf. Mae'r tabl isod yn dangos y swm dros dro y bydd pob awdurdod lleol yn ei gael mewn Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer 2023-24, a'r gwahaniaeth canrannol o gymharu â 2022-23.<sup>11</sup>

<sup>10</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 83

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, [Refeniw llywodraeth leol a dosbarthiad setliad cyfalaf dros dro 2023 i 2024, Tabl 1a](#). Mae'r tabl wedi'i addasu i ddangos y gwahaniaeth canrannol mewn trefn, o'r uchaf i'r isaf

**Tabl 1a: Newid mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF), wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau, yn ôl Awdurdod Unedol (£000)**

| Awdurdod Unedol                   | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2022-23 [Nodyn 1] | Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2023-24 | Newid fel canran | Rheng |
|-----------------------------------|---|---------------------------------------|------------------|-------|
| Sir Fynwy                         | 112,020   | 122,490                               | 9.3%             | 1     |
| Caerdydd                          | 543,810   | 592,891                               | 9.0%             | 2     |
| Bro Morgannwg                     | 185,931   | 202,535                               | 8.9%             | 3     |
| Casnewydd                         | 265,502   | 289,211                               | 8.9%             | 4     |
| Powys                             | 210,090   | 228,388                               | 8.7%             | 5     |
| Sir Gaerfyrddin                   | 311,585   | 338,017                               | 8.5%             | 6     |
| Wrecsam                           | 207,279   | 224,621                               | 8.4%             | 7     |
| Sir y Fflint                      | 232,336   | 251,747                               | 8.4%             | 8     |
| Ceredigion                        | 119,238   | 129,050                               | 8.2%             | 9     |
| Sir Ddinbych                      | 173,596   | 187,871                               | 8.2%             | 10    |
| Sir Benfro                        | 196,776   | 212,415                               | 7.9%             | 11    |
| Ynys Môn                          | 114,490   | 123,555                               | 7.9%             | 12    |
| Pen-y-bont ar Ogwr                | 232,109   | 249,895                               | 7.7%             | 13    |
| Abertawe                          | 388,409   | 417,775                               | 7.6%             | 14    |
| Torfaen                           | 160,218   | 172,223                               | 7.5%             | 15    |
| Conwy                             | 184,915   | 198,413                               | 7.3%             | 16    |
| Castell-nedd Port Talbot          | 258,174   | 276,397                               | 7.1%             | 17    |
| Merthyr Tudful                    | 110,704   | 118,497                               | 7.0%             | 18    |
| Gwynedd                           | 213,017   | 227,843                               | 7.0%             | 19    |
| Caerffili                         | 317,789   | 339,610                               | 6.9%             | 20    |
| Rhondda Cynon Taf                 | 441,596   | 470,847                               | 6.6%             | 21    |
| Blaenau Gwent                     | 131,057   | 139,597                               | 6.5%             | 22    |
| <b>Cyfanswm Awdurdodau Unedol</b> | <b>5,110,643</b>                                | <b>5,513,888</b>                      | <b>7.9%</b>      |       |

## Setliad amlflwyddyn

**22.** Roedd y setliad ar gyfer 2022-23 yn darparu ffigurau dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Croesawyd y dull hwn gan lywodraeth leol, ar ôl galw ers amser maith am setliadau amlflwyddyn i roi sicrwydd i awdurdodau lleol a'r gallu iddynt gynllunio dros y tymor canolig. Yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb 2022-23 ym mis Ionawr 2022, dywedodd y Cyngorydd Hunt wrthym:

*"I think we can aim much higher than just standing still with this settlement [2022-23]... I think this settlement, alongside the fact that it is a multi-year settlement, gives us the chance... to really address some of those things in the longer term."<sup>12</sup>*

**23.** Eleni, cydnabu'r Cyngorydd Morgan fod cael setliad dros dro am dair blynedd yn rhywbeth y mae llywodraeth leol wedi llobio yn ei gylch, ond ychwanegodd fod angen ateb tymor hwy. Dywedodd y Cyngorydd Morgan wrthym y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth y DU yn gallu darparu setliad tair blynedd treigl i roi mwy o sicrwydd i Lywodraeth Cymru, a allai roi'r un sicrwydd i lywodraeth leol. Esboniodd:

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2022, paragraff 48

*"The problem is, on year one of the spending review, it's excellent, we get a three-year settlement, or at least indicative figures, but, of course, on the last year, it's only for that one year, and it's a continuous cycle of not knowing where we're going."*<sup>13</sup>

**24.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*"I'm always in favour of giving as much certainty as we can to all partners in terms of our budgets and the length at which we set them. This is the first time since I've been in portfolio in terms of being able to set a budget that is beyond one year, because of course, for a number of years, we were having just one-year settlements from the UK Government, and it just doesn't give us the kind of certainty that we need to be able to pass that certainty on to colleagues and to partners in local government and in health and other places as well. So, absolutely, the more certainty that we have. So, I hope that when we come to the end of this three-year spending review, we will go into another spending review period that will be a multi-year period as well."*<sup>14</sup>

## Ein barn ni

**25.** Rydym yn cydnabod bod gosod cyllideb ddrafft wrth wynebu pwysau economaidd eithafol megis chwyddiant uchel, cynnydd mewn costau ynni byd-eang a chynnydd ym mhrisiau nifer o nwyddau yn her anodd i Lywodraeth Cymru. Rydym felly'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, lle bo hynny'n bosibl, drwy sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cael cynnydd yn ei gyllid ar gyfer 2023-24 ac, yn benodol, fod y cynnydd cyffredinol yn uwch na'r ffigurau dangosol a ddarparwyd y llynedd. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y cynnydd yn is na'r gyfradd chwyddiant.

**26.** Er bod Llywodraeth leol wedi croesawu'r setliad ar y cyfan, roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a'r Gweinidog yn glir y byddai cynghorau'n dal i wynebu penderfyniadau anodd a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau. Er gwaethaf y cynnydd yn y cyllid, rydym yn pryderu, yn dilyn sawl blwyddyn o doriadau, mai ychydig iawn o wydnwch sydd ar ôl o fewn y sector, sy'n debygol o arwain at awdurdodau yn defnyddio mwy o gronfeydd wrth gefn er mwyn mantoli eu cyllidebau.

**27.** Y llynedd, gwnaethom groesawu'r farn gan lywodraeth leol y byddai darparu ffigurau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn galluogi awdurdodau lleol i ymgymryd â gwaith cynllunio tymor hwy ar gyfer gwasanaethau, yn hytrach na dim ond ymateb i bwysau dybryd.

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraffau 34-35

<sup>14</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 158

Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y graddau y bu hyn yn bosibl yn sgil y pwysau a gafwyd wedyn ac am eu gallu i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**28.** Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaed gan lywodraeth leol ynghylch manteision setliadau amlflwyddyn ac yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i roi mwy o sicrwydd lle bo hynny'n bosibl. Rydym yn cydnabod bod hyn yn dibynnu ar Lywodraeth y DU yn darparu setliadau amlflwyddyn i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud sylwadau i Drysorlys y DU am setliad tair blynedd treigl i roi mwy o sicrwydd i wasanaethau cyhoeddus.

## Gwariant ataliol

**29.** Gwnaethom drafod â thystion fanteision gwario arian nawr i atal pwysau yn y dyfodol a'r graddau y bydd y setliad drafft yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud hynny. Clywsom gan y Cynghorydd Hunt fod awdurdodau lleol am wneud y canlynol:

*"...comply with the aims and objectives of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and we can only do that by investing in those early intervention and prevention services."<sup>15</sup>*

**30.** Nid yw'n ymddangos bod y setliad cyllid ar hyn o bryd yn rhoi'r cyfle na'r sicrwydd sydd eu hangen ar awdurdodau lleol i fuddsoddi'n llawn a mynd i'r afael â'r atebion hirdymor hynny ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gyda'r Cynghorydd Hunt yn dweud wrthym:

*"... we all want to be planning for the long term; we want to be making sustainable long-term choices rather than just firefighting.*

*What I'd say is that the better the settlement is, the more it enables us to get into that space and not just in putting out fires all the time."<sup>16</sup>*

**31.** Cyfeiriodd Prif Weithredwr CLILC at ddewisiadau anodd sy'n wynebu awdurdodau lleol, yn enwedig ynghylch gwasanaethau hamdden, a hynny mewn cyfnod lle mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar bobl yn byw bywydau mwy egniol:

*"... in the current climate, we would like to see people lead more active lives, and yet local authorities are faced with the choice of having to cut back on their leisure services, leisure centres, swimming pools and so on."<sup>17</sup>*

---

<sup>15</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 103

<sup>16</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraffau 38-39

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 84

---



**32.** Cyfeiriodd y Cyngorydd Medi at wasanaethau hamdden fel enghraifft o ble gallai lleihau gwasanaeth anstatudol gael effaith tymor hwy ar wasanaeth statudol:

*"...megis hamdden ac iechyd. Os ydyn ni'n cau canolfannau hamdden [...] mae hwnna'n mynd i gael effaith andwyol ar y gwasanaeth iechyd mewn nifer o flynyddoedd."*<sup>18</sup>

**33.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr agenda ataliol wedi bod yn rhan o broses gosod cyllidebau Llywodraeth Cymru ers sawl blwyddyn, gan grybwyll gwasanaethau llyfrgell a hamdden fel enghreifftiau lle mae llywodraeth leol yn cyfrannu.<sup>19</sup> Cyfeiriodd swyddog Llywodraeth Cymru at fyrddau partneriaeth rhanbarthol fel mecanwaith ar gyfer llawer iawn o waith sy'n digwydd rhwng llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd, ac ychwanegodd:

*"Those boards have funding and can use that funding in a way that will address their local preventative needs as well as the very short term priorities that you rightly recognise."*<sup>20</sup>

**34.** Mewn ymateb i'n cwestiynau ynghylch a oes prosesau ar waith i sicrhau nad mesurau ataliol yw'r cyntaf i gael eu torri pan fydd adnoddau'n brin, dywedodd swyddog Llywodraeth Cymru wrthym:

*"... we don't have processes, but what we do have is this ongoing policy dialogue about prevention."*<sup>21</sup>

**35.** Ychwanegodd y swyddog fod llywodraeth leol yn amlwg wedi ymrwymo i'r agenda hon ond ei fod yn cydnabod y tensiynau gwirioneddol rhwng y modd mae awdurdodau lleol yn ymdopi â'r pwysau byrdymor aciwt iawn hwn heb gefnu ar waith trawsnewidiol ac ataliol. Daeth i'r casgliad:

*"That is a balance that I think only they can make locally in response to the pressures and priorities on each authority."*<sup>22</sup>

## **Ein barn ni**

**36.** Rydym yn nodi'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i'r agenda ataliol, ond rydym yn pryderu ynghylch sut y bydd dyraniadau yn y gyllideb ddrafft hon yn bodloni'r ymrwymiad

---

<sup>18</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 98

<sup>19</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 184

<sup>20</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 187

<sup>21</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 188

<sup>22</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 188

---

hwnnw gan y bydd gwariant ar fesurau ataliol yn aml yn dioddef pan fydd sefydliadau'n ymdrin â phwysau brys.

**37.** Rydym yn pryderu y gallai'r sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu awdurdodau lleol ar hyn o bryd arwain at doriadau i wasanaethau anstatudol megis cyfleusterau hamdden, a allai gael effaith tymor hwy ar iechyd a llesiant pobl. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i annog pobl i fyw bywydau iachach a mwy egniol i leihau'r pwysau ar y system iechyd ac, er ein bod yn cefnogi'r nod hwn, rydym yn gwbl ymwybodol o'r penderfyniadau anodd sy'n wynebu awdurdodau lleol o ran cynnal cyfleusterau hamdden.

**38.** Hoffem i Lywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth yn nodi sut y mae'r dyraniadau yn y gyllideb ddrafft wedi'u blaenoriaethu i gyflawni ei hymrwymiad i'r agenda gwariant ataliol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion i ddangos sut y mae'r dyraniadau yn y gyllideb ddrafft wedi'u blaenoriaethu i gyflawni ei hymrwymiad i'r agenda gwariant ataliol.

**39.** Nodwn sylwadau'r Gweinidog ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol fel mecanwaith i lywodraeth leol a'r sector iechyd gydweithio, ond rydym yn ansicr ynghylch pa mor effeithiol yw'r byrddau o ran cyflawni'r nodau ataliol hyn. Rydym yn cydnabod y gallai fod dulliau gwahanol o weithredu ledled Cymru.

## Cyllid cyfalaf

**40.** Bydd cyllid cyfalaf cyffredinol Llywodraeth leol yn codi i £180 miliwn yn 2023-24 yn dilyn gostyngiad i £150 miliwn yn 2022-23. Roedd disgwyl hyn ac roedd yn unol â'r ffigur dangosol a nodwyd ar gyfer 2023-24 y llynedd. Noda Dadansoddi Cyllid Cymru yn Rhagolwg Cyllideb Cymru 2022, gan nad oedd cyllid cyfalaf ychwanegol yn Natganiad Hydref Llywodraeth y DU, nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ychwanegu at ei chynlluniau buddsoddi a lliniaru effaith chwyddiant uwch.<sup>23</sup> O ganlyniad, disgwylir i gyllidebau cyfalaf Llywodraeth Cymru ostwng 8 y cant mewn termau real erbyn 2024-25.

**41.** Mae CLILC yn nodi yn ei phapur tystiolaeth y bydd setliad refeniw tynnach "yn effeithio ar raglenni cyfalaf". Mae'n mynd ymlaen i nodi y gallai arwain at gynghorau'n gohirio neu'n dileu rhaglenni cyfalaf er mwyn cyflawni blaenoriaethau lleol allweddol. Bydd pwysau ar gynghorau i

---

<sup>23</sup> "A perfect storm" – an initial analysis of the Welsh Government's Draft Budget for 2023-24, 15 Rhagfyr 2022

gyfrannu at brosiectau arian cyfatebol hefyd, ac yn gyffredinol, "mae'n ymddangos yn debygol y bydd rhaglenni cyfalaf cynghorau yn cael eu lleihau".<sup>24</sup>

**42.** Croesawodd y Cynghorydd Morgan y cynnydd mewn cyllid cyfalaf cyffredinol, gan ychwanegu, fodd bynnag, fod priffyrdd yn debygol o fod yn faes dan bwysau i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Aeth y Cynghorydd Morgan ymlaen i ddweud:

*"If there could be a possibility of further capital funding for our highways across Wales to see local authorities carrying out substantial resurfacing works, that does actually save us on revenue."<sup>25</sup>*

**43.** O fewn y setliad drafft, nid yw swm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y Gronfa Ffyrdd Cydnerth, a oedd yn £4.6 miliwn yn 2022-23, wedi'i gadarnhau eto am y ddwy flynedd nesaf. Esboniodd swyddog Llywodraeth Cymru:

*"... the resilient roads fund budget is part of that local transport fund, so you can see the transport fund going up from £15 to £23 million. I believe the proposals for the resilient roads fund are due in at the beginning of February, so they'll be looking through those to see what's coming in through that, to then decide which bit of the budget gets allocated against that. So, that's why that's got a 'TBC' on there—the budgets are linked up."<sup>26</sup>*

**44.** Er iddynt groesawu'r cynnydd, nododd cynrychiolwyr llywodraeth leol fod pwysau chwyddiant yn arwain at awdurdodau'n gallu gwneud llai gyda'r un faint o arian. Dywedodd y Cynghorydd Morgan wrthym:

*"... because of the cost pressures with inflation, some of the costs in terms of new build for schools and renovation works have gone up by 25 per cent to 30 per cent at least. So, there is additional pressure on us, actually, because in effect our spending power with the capital money we have has diminished."<sup>27</sup>*

**45.** Ychwanegodd y Cynghorydd Hunt:

*"... the spending power that we have is really being cut from the other end of the equation, with costs for construction and all sorts of capital works really increasing and putting more pressure on council leaders to find match funding, to find other sources of funding, to top up to meet those increased*

---

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2023, [papur.1](#)

<sup>25</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 55

<sup>26</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 201

<sup>27</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 56

---

*costs, or, inevitably, you end up doing less with the same amount of money.*<sup>28</sup>

**46.** Aeth y Cynghorydd Medi ymlaen i ddweud:

*"Mae'n bwysig nodi bod y gyllideb gyfalaf, er ei bod hi wedi codi o ran gwerth, mae gwerth ariannol yr un swm yn werth llai i ni. [...] mae'r gyllideb gyfalaf yn andros o gyfyngedig i beth oedd o flynyddoedd yn ôl, ac mae hynny'n golygu bod y cynlluniau trawsnewidiol yna yn mynd yn is lawr ar y rhestr, sy'n golygu bod ein gwasanaethau cyhoeddus ni'n gwanhau a ddim yn mynd i'r unfed ganrif ar hugain fel y dylen nhw, oherwydd y prinder yn y cyfalaf. [...] Felly, dydy'r gyfalaf wirioneddol ddim yn ddigon da [...] i wneud i'r firefighting yma barhau."*<sup>29</sup>

**47.** Cydnabu'r Gweinidog y pryderon a godwyd gan gynrychiolwyr llywodraeth leol a chytunodd fod cyllid cyfalaf yn destun pryder arbennig, gan ychwanegu:

*"The capital funding over the three-year spending review period falls by 11 per cent, and that was even starting from an insufficient base in the first place, so it's a real area of concern."*<sup>30</sup>

**48.** Nododd y Gweinidog nad oedd cyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth y DU yn natganiad yr hydref, gan ychwanegu:

*"... we've got the spring statement, so maybe looking ahead to future years, there might be an indication in the spring statement of increased capital, because that's exactly the kind of money that we need to recover from the pandemic in terms of being able to invest in infrastructure, creating jobs, and so on."*<sup>31</sup>

**49.** Aeth y Gweinidog ymlaen i esbonio nad oedd newidiadau gwirioneddol i'r dyraniadau cyfalaf, yn rhannol gan nad oedd cyllid ychwanegol i'w ddyrannu ac yn rhannol oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad cwbl gynhwysfawr o gynlluniau cyfalaf, a arweiniodd at ailffocysu buddsoddiad cyfalaf tuag at y pethau sy'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau hinsawdd a mynd â ni'n nes at sero net.<sup>32</sup>

---

<sup>28</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 59

<sup>29</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 64

<sup>30</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 196

<sup>31</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 196

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 197

---

## Ein barn ni

**50.** Gwnaethom nodi ein pryder y llynedd am y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf, yn enwedig cyllid ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd. Mae cynnal priffyrdd sy'n ddiogel i ddefnyddwyr trafniadaeth gyhoeddus, beicwyr a cherddwyr yn hanfodol er mwyn annog pobl i leihau'r defnydd o geir preifat. Mae'n siomedig felly nad oes cyllid cyfalaf priffyrdd penodol ar gyfer awdurdodau lleol, a fynegodd eu pryder bod cynnal priffyrdd yn bwysau arbennig ar eu hadnoddau. Nodwn sylwadau Llywodraeth Cymru nad yw'r cyllid a ddyrennir i'r Gronfa Ffyrdd Cydnerth wedi'i gadarnhau eto, sy'n ei gwneud yn anodd i ni graffu a llunio barn ar yr agwedd hon ar y gyllideb. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar y dyraniadau cyffredinol o fewn y gyllideb ddrafft ar gyfer y Gronfa Trafnidiaeth Leol a gwneud addasiadau er mwyn sicrhau bod y Gronfa Ffyrdd Cydnerth yn cael ei chyllido'n ddigonol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o gyllid cyfalaf o fewn y setliad i awdurdodau lleol allu cynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd a phriffyrdd yn ddigonol.

**51.** Rydym yn croesawu'r cynnydd arfaethedig mewn cyllid cyfalaf cyffredinol yn unol â dyraniadau dangosol a gyflwynwyd yng nghyllideb 2022-23. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r sylwadau cryf a wnaed gan lywodraeth leol bod pwysau chwyddiant wedi lleihau gwerth dyraniadau cyfalaf, a bydd yn arwain at gynghorau'n gwneud llawer llai gyda'r cyllid hwnnw. Mae'n siomedig felly nad yw'r cyllid cyfalaf cyffredinol yn adlewyrchu pwysau chwyddiant, sy'n cael effaith sylweddol ar wariant awdurdodau lleol. Nodwn na wnaeth Llywodraeth y DU ddarparu cyllid cyfalaf ychwanegol i grant Cymru yn ystod Datganiad yr Hydref. Pe bai Datganiad y Gwanwyn yn arwain at ddyraniadau ychwanegol ar gyfer Cymru, dylai Llywodraeth Cymru basio'r cynnydd ymlaen i gyfalaf cyffredinol awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall cynnydd mewn cyllid cyfalaf yn y dyfodol a dylai gyflwyno'r achos dros sicrhau bod unrhyw gynnydd yn gysylltiedig â'r gyfradd chwyddiant.

## Y Dreth Gyngor a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

### Y Dreth Gyngor

**52.** Dros y degawd diwethaf, mae'r Dreth Gyngor wedi **cynyddu bron i 30 y cant.** Fodd bynnag, dros yr un cyfnod, er gwaethaf y cynnydd yn y Dreth Gyngor, mae gwariant cyffredinol wedi gostwng tua 7 y cant mewn termau real. Nododd CLLC yn ei phapur fod rhagdybiaeth, cyn cyhoeddi cyllideb ddrafft 2023-24, y byddai bil cyfartalog y dreth gyngor yn cynyddu tua 4

y cant, gan y byddai'n rhaid i gynghorau "gydbwysu'r cynnydd mewn cyllid gyda'r pwysau costau byw a wynebwr gan drigolion".<sup>33</sup>

**53.** Nododd y Cynghorydd Hunt y penderfyniadau anodd sy'n wynebu cynghorau wrth bennu cyfraddau'r dreth gyngor:

*".. you've got balancing people's costs of living on one hand with the need to retain valuable local services on the other. So, it's not an easy choice in any year, even more so this year, given the cost-of-living crisis and the huge pressures we've talked about."*<sup>34</sup>

**54.** Ychwanegodd y Cynghorydd Hunt:

*"Certainly, the better the settlement is, the more space it gives councils to have a lower council tax rise. You've seen in England there seems to be almost a uniform 5 per cent rise across the board because of the pressures on the services there. We've had a Government that's talked to us about the pressures on those services and has tried to meet us halfway, so that puts us in a better position, but it's still a very difficult situation, given the huge pressures that have been described before."*<sup>35</sup>

**55.** Mae'n anochel y bydd cynnydd yn y Dreth Gyngor yn rhoi pwysau ychwanegol ar aelwydydd. Mae hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd na fydd deiliaid tai yn gallu fforddio'r taliadau. Ym mlwyddyn ariannol 2021-22, darparodd Llywodraeth Cymru £19 miliwn, mewn ymateb i'r pandemig, er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda chyfraddau casglu'r dreth gyngor. Nid oes grant penodol wedi'i ddarparu at y diben hwn yn y blynyddoedd dilynol, er gwaethaf y pwysau costau byw presennol ar aelwydydd.

**56.** Clywsom gan CLILC fod casglu'r dreth gyngor yn bwysau. Dywedodd y Cynghorydd Hunt wrthym:

*"... there has been a pressure on collection rates from the pandemic and now into the cost-of-living crisis, and that's something that we've had to factor in. We reduced our assumed collection rate in our budget two years ago now, [...] so we didn't end up with a hole in our budget. That's a challenge, obviously, because if you reduce the assumed collection rate there's less*

---

<sup>33</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2023, [papur.1](#)

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 77

<sup>35</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 77

---

*money in your budget, but councils are doing all they can to ensure collection remains as high as possible.*<sup>36</sup>

**57.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cyfraddau casglu yn uchel ar y cyfan, sef tua 97 y cant, ar ôl gostwng i gyfartaledd o 95.7 y cant yn ystod y pandemig. Esboniodd y Gweinidog y sail resymegol dros beidio â darparu cyllid penodol i gynorthwyo gyda chyfraddau casglu:

*"The reason why we were able to support local authorities in that way during the pandemic was really because we recognised it was a very different circumstance. We recognised that lots of the teams who were normally involved in council tax collection had had their work diverted to, for example, distributing our Welsh Government grants to businesses and so on."*<sup>37</sup>

## Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

**58.** Mae rhai aelwydydd sydd ar incwm isel yn gymwys i dderbyn gostyngiad neu gymorth i dalu bil y dreth gyngor. Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a ddisodlodd Budd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru, yn cynorthwyo tua un o bob pum aelwyd gyda gostyngiadau yn eu treth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £244 miliwn bob blwyddyn i awdurdodau lleol i alluogi cartrefi cymwys i gael yr hawl lawn i gymorth. Nid yw'r ffigur o £244 miliwn wedi newid dros y degawd diwethaf. Mae [Adroddiad Blynyddol diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y Cynllun](#), a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022, yn nodi mai cyfanswm gwerth y gostyngiadau a ddarparwyd drwy'r Cynllun o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022 oedd tua £287.6 miliwn.

**59.** Dywedodd y Cynghorydd Morgan wrthym fod y cap ar gyllid Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn rhoi pwysau ar lywodraeth leol, gan esbonio:

*"...in our own local authority, for example, in Rhondda Cynon Taf, we always tell members that if we put up council tax by 1 per cent, we only actually get about 80 per cent of the additional income, because, in effect, almost 20 per cent of the additional income is lost because of the council tax reduction scheme and those who don't pay council tax. So, in effect, we have to pay that element. So, we do lose around 20 per cent every time we put the council tax up. [...] So, it does have a bearing on it, but it's something that local authorities have had to manage for a number of years because that envelope of funding, as I say, has been capped probably for almost a decade now."*<sup>38</sup>

<sup>36</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 91

<sup>37</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 214

<sup>38</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 23, paragraff 94

**60.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod £244 miliwn yn fuddsoddiad sylweddol i gynorthwyo rhai o'n haelwydydd mwyaf tlawd, gan ychwanegu ei fod yn ymrwymiad ar y cyd rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod cael cynllun cenedlaethol yng Nghymru yn lleihau'r baich gweinyddol a'r gost i awdurdodau lleol.<sup>39</sup>

**61.** Clywsom gan y Cynghorydd Hunt fod sicrhau bod aelwydydd cymwys yn hawlio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi bod yn her erioed. Dywedodd wrthym sut y mae awdurdodau lleol yn ceisio cyrraedd mwy o bobl:

*"We've invested in our benefits advice team and financial inclusion teams, who help identify people who could be entitled to benefits or people who are going through financial crisis and make sure that they apply so that they can get that money in the door. I know that council revenues and benefits teams across the country have been really going above and beyond in the last two years to get money out to people during the pandemic and now, in this cost-of-living crisis, will be stepping up their efforts to try and make sure that people who are entitled to council tax reduction and entitled to other benefits claim as much as possible, rather than getting caught in a poverty trap."*<sup>40</sup>

**62.** Cydnabu'r Gweinidog fod nifer y bobl sy'n hawlio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ers ei ddatganoli wedi gostwng, o bosibl oherwydd y cynnydd yn oedran ymddeol y wladwriaeth ac oherwydd yr angen i wneud cais i'r cynllun. Cyfeiriodd y Gweinidog at ymgyrch 'mochyn gwyrdd' Llywodraeth Cymru sy'n ceisio pwysleisio pwysigrwydd gwneud cais i'r cynllun.<sup>41</sup>

## **Ein barn ni**

**63.** Rydym yn cydnabod y bydd gwneud penderfyniadau ynghylch codi'r dreth gyngor yn anodd i awdurdodau lleol yn sgil y pwysau costau byw ehangach ar lawer o aelwydydd. Rydym yn cydnabod y bydd angen i awdurdodau lleol, wrth wneud eu penderfyniadau, ystyried yr angen i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cynyddu eu refeniw i sicrhau darpariaeth gwasanaethau, heb roi gormod o faich ar breswylwyr. Er nad oes gennym farn am gyfradd y cynnydd yn y dreth gyngor, rydym yn cydnabod y bydd angen cynnydd, yn enwedig o ystyried yr angen i gynllunio nawr ar gyfer y tebygolrwydd y bydd rhagor o bwysau y flwyddyn nesaf.

**64.** Rydym yn croesawu'r cynnydd yng nghyfraddau casglu'r dreth gyngor, yn dilyn gostyngiad yn ystod y pandemig. Mae'r dreth gyngor yn ffrwd ariannu hanfodol i awdurdodau

---

<sup>39</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 23, paragraff 210

<sup>40</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 23, paragraff 92

<sup>41</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 23, paragraff 211

---



lleol, gan gyfrif am rhwng 20 a 25 y cant o gyllid cynghorau. Felly, mae cynnal cyfraddau casglu uchel yn allweddol i sicrhau darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus effeithiol. Nodwn nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant penodol i gynorthwyo cyfraddau casglu fel y gwnaeth yn ystod y pandemig. Credwn y dylai cyfraddau casglu gael eu monitro'n agos i asesu a yw pwysau costau byw yn effeithio ar allu cynghorau i gynnal y lefel gasglu uchel sy'n bodoli ar hyn o bryd. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol y systemau a'r gweithdrefnau ar waith i'w galluogi i gasglu'r cyllid hanfodol hwn.

**65.** Rydym yn poeni bod nifer y bobl gymwys sy'n hawlio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn gostwng, yn enwedig ar adeg pan fo cyllid aelwydydd dan bwysau. Rydym yn cydnabod yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol o ran codi ymwybyddiaeth, ond mae'n glir nad yw'r neges yn cyrraedd pawb. Rydym yn cydnabod bod staff cynghorau eisoes dan bwysau ac y gallai ymrwymo mwy o adnoddau roi rhagor o bwysau ychwanegol ar y gweithlu. Credwn fod rhaid i Lywodraeth Cymru barhau â'i hymgyrch i godi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau sydd ar gael i drigolion a sicrhau bod Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael ei bwysleisio fel rhan o'r ymgyrch honno. Credwn y byddai'n ddefnyddiol cynnal adolygiad o'r ymgyrch i asesu ei heffeithiolrwydd o ran cyrraedd y bobl iawn.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'i hymgyrch i godi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau sydd ar gael i drigolion, gan gynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, i asesu ei heffeithiolrwydd o ran cyrraedd preswylwyr cymwys.

## Pwysau ar y gweithlu a phwysau seiliedig ar alw

### Gofal Cymdeithasol

**66.** Mae parhad gwasanaethau seiliedig ar alw, megis Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi bod yn bryder i lywodraeth leol ac mae'n parhau felly. Mae'r pwysau ar wasanaethau wedi gwaethygu yn sgil y pandemig a bellach yn sgil yr heriau economaidd, gyda chwyddiant uchel a chostau'n cynyddu.

**67.** Mae problemau byrdymor a hirdymor o hyd o ran cynaliadwyedd a chyflwr y sector. Dywedodd arweinwyr y GIG yng Nghymru yn ddiweddar fod argyfwng cenedlaethol<sup>42</sup> ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd diffyg gweithwyr gofal. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru ym mis Tachwedd 2022:

<sup>42</sup> Conffederasiwn GIG, *It's not just a crisis, it's a national emergency*, 28 Medi 2022

*"While we acknowledge the considerable financial challenges facing the whole of the public sector, governments must prioritise sustainable investment and funding for social care if we are to avoid whole-system collapse."*<sup>43</sup>

**68.** Clywsom gan y Cynghorydd Morgan fod awdurdodau lleol yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi'r gwasanaeth iechyd, a'u bod yn cael gwybod am y pwysau oedd ar staff:

*"Our staff are under more pressure now, I would suggest, than at any time, even during the pandemic. We've got staff who are working back-to-back shifts, who are working overtime, because there is a real crisis in social care."*<sup>44</sup>

**69.** Croesawodd y Cynghorydd Morgan y gydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru bod rhaid i wasanaethau cymdeithasol gael eu hariannu ochr yn ochr â'r gwasanaeth iechyd gan fod rhaid i'r ddau sector weithio law yn llaw â'i gilydd. Clywsom gan y Cynghorydd Morgan ei bod yn debygol bod y pandemig wedi dod â gofal cymdeithasol a'r GIG yn agosach nag erioed ond bod lle i wella'r berthynas ymhellach. Dywedwyd wrthym:

*"...it is about working smarter and doing things better, but unfortunately, a lot of it does come down to funding. If we are to recruit and retain staff in social care, that means that it has to be funded."*<sup>45</sup>

**70.** Dywedodd Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrthym:

*"... the focus at the moment is very much on discharging people from hospital. But what is being missed is that 80 per cent of our demand is in the communities, and we are not able to meet the need within our communities at this moment in time, because the focus is on discharge from hospitals. And without us being able to meet that need within the community, there is more demand that is actually going to hit the front door of A&E in our hospitals. So, it's that vicious circle that we are trying to address at this moment in time. And we are working with health colleagues, because what we need to focus on is reducing the demand and the flow that's coming into the front door of our hospitals, as well as dealing with the back end of the system."*<sup>46</sup>

---

<sup>43</sup> Confederasiwn GIG, *NHS leaders urge governments to take action on social care now*, 10 Tachwedd 2022

<sup>44</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 25

<sup>45</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 25

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 30

---

**71.** Cytunodd y Gweinidog mai gofal cymdeithasol fyddai un o'r ffynonellau pwysau mwyaf sy'n wynebu llywodraeth leol ac ymrwymodd i barhau i gael cyfarfodydd rheolaidd gyda llywodraeth leol ynghylch gofal cymdeithasol oedolion a phlant.<sup>47</sup>

**72.** Nododd y Gweinidog fod y Gronfa Gofal Integredig yn enghraifft wych o gydweithio a'i bod yn sicrhau proses fwy esmwyth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.<sup>48</sup> Mae'r Gronfa Gofal Integredig bellach wedi'i disodli gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

## Recriwtio, cadw a chyflog

**73.** Mae llywodraeth leol yn wynebu heriau cynyddol o ran recriwtio a chadw staff ar draws llawer o sectorau; yn arbennig, mae problemau sylweddol yn y sector gofal. Y sector hwn, yn hanesyddol, fu perthynas tlawd iechyd sylfaenol, a chafodd y pandemig effaith arbennig o negyddol arno. Dywedodd CLILC yn flaenorol nad oedd taliadau ychwanegol o £500 a wnaed yn dilyn y pandemig i staff gofal cymdeithasol i gydnabod eu gwaith "yn mynd i'r afael â chyflog isel hirdymor staff gofal cymdeithasol".<sup>49</sup>

**74.** Dywedodd Prif Weithredwr CLILC wrthym:

*"Costs are increasing, demand is increasing, but in social care in particular, the legacy of long-term austerity, of long-term underfunding in social care is being felt at the moment. And in effect what happens is that the private and other sectors are able to respond in terms of pay pressures relatively quickly; local government and the public sector find it far more difficult to respond. As a consequence, the supply of domiciliary care staff and other social care and community care staff is incredibly difficult, and I don't think anybody should underestimate the challenges that local authorities face within the sector."*<sup>50</sup>

**75.** Mae llywodraeth Cymru wedi nodi'r cyd-destun heriol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol, ac wedi cynnal y Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar £45 miliwn. Defnyddir y grant i ariannu agweddau sy'n ymwneud â gwasanaethau oedolion a phobl hŷn. Nodwyd yn y Naratif ar Gyllideb Ddrafft 2023-24:

*"Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn ymrwymiad allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu, ac mae'n rhan o'n gwaith ehangach i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Bydd darparu*

<sup>47</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 182

<sup>48</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 189

<sup>49</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 22-23 42, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>50</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 27

*cyflog gwell drwy gynyddu cyflog gweithwyr gofal cymdeithasol i'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector, yn darparu cymorth yn ystod yr argyfwng costau byw ac yn helpu i recriwtio a chadw gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol."*<sup>51</sup>

**76.** Cadarnhaodd papur y Gweinidog fod cyllid refeniw ychwanegol i "alluogi awdurdodau i barhau i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal".<sup>52</sup> Mae Naratif y Gyllideb Ddrafft yn nodi "darpariaeth reolaidd o £70m i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol", sydd o fewn y dyraniadau i'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol a'r setliad llywodraeth leol.<sup>53</sup>

**77.** Dywedodd y Cynghorydd Medi wrthym nad oedd hi'n credu bod talu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn ddigonol i liniaru'r risgiau bod staff yn gadael y sector:

*"...mae'r sector preifat wedi'n pasio ni, o bell ffordd, a dydy'r cyflog byw go iawn ddim wedi cymryd i ystyriaeth costau chwyddiant ac effaith hynny ar gartrefi."*<sup>54</sup>

**78.** Cydnabu'r Gweinidog fod y Comisiwn Cyflogau Isel wedi nodi y dylid cynyddu'r cyflog byw gwirioneddol yn sylweddol y flwyddyn nesaf, gan ychwanegu:

*"... hopefully, it will have an impact on retention and recruitment into the sector, but we know that pay is only part of the picture for social care. The Deputy Minister for Social Services is doing work in terms of the kudos of the sector, making sure that people have appropriate learning and development opportunities. [ ] I think that the real living wage is important, but it's not the solution and it's only part of the picture."*<sup>55</sup>

**79.** Derbyniodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru eisiau talu mwy i weithwyr gofal, ond ychwanegodd:

*"... we can only pay what's available within the envelope that we have. So, I think this is the best that we could offer within the resources available to us. But, obviously, we would want to do more."*<sup>56</sup>

---

<sup>51</sup> [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24](#), tudalen 38

<sup>52</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, [papur 2](#)

<sup>53</sup> [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24](#), tudalen 21

<sup>54</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 121

<sup>55</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 230

<sup>56</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 234

---

**80.** Rhoddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddiweddariad i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyflog a thelerau ac amodau.<sup>57</sup>

**81.** Clywsom fod sectorau eraill o fewn llywodraeth leol hefyd yn cael anawsterau o ran recriwtio a chadw staff. Dywedodd y Cyngorydd Morgan wrthym am broblemau ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau eraill, gan sôn am brinder peirianwyr yn benodol:

*"There is a real shortage in terms of bridge engineers and highway engineers even for things like active travel routes, which, quite often, are complex in terms of some of the infrastructure that's alongside them. [ ] Of course, because of the cost-of-living pressures and the cost of inflation, a lot of recruitment is driven by wage salaries, so we are competing with the private sector, and where we can't then recruit directly in-house, we end up having to go to agencies, or we have to go to consultants. To be quite frank about it, the prices that we pay to consultants are sometimes two or even three times the salary if we employed somebody."<sup>58</sup>*

**82.** Dywedodd y Cyngorydd Morgan wrthym fod rhai awdurdodau lleol wedi cyflwyno cynlluniau prentisiaeth neu raglenni i hyfforddeion graddedig er mwyn recriwtio staff a meithrin arbenigedd.<sup>59</sup> Tynnodd y Cyngorydd Morgan sylw hefyd at y prinder gyrywyr cerbydau nwyddau trwm i weithredu cludiant i'r ysgol, gyda llawer wedi cael eu recriwtio gan gwmnïau ac archfarchnadoedd mawr sydd wedi gallu cynnig taliadau croeso euraid.<sup>60</sup>

## Ein barn ni

**83.** Mae recriwtio a chadw staff i weithio yn y sector gofal cymdeithasol wedi bod yn gryn her i awdurdodau lleol ers sawl blwyddyn, ac rydym yn pryderu nad yw'r sefyllfa wedi gwella, er gwaethaf sicrwydd o well tâl a chydabyddiaeth i staff. Y llynedd, er gwaethaf croesawu £60 miliwn o gyllid uniongyrchol ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer diwygio'r sector gofal, gwnaethom dynnu sylw at ein pryder ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y gweithlu gofal cymdeithasol, a gofyn sut y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau y byddai'r cyllid hwn yn cyflawni ei nodau. Eleni, rydym yn aneglur o hyd ynglŷn â sut y mae'r cyllid ychwanegol wedi gwneud gwahaniaeth gan ein bod yn parhau i glywed am yr un pwysau yn ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol. Er y croesewir cyllid ychwanegol bob amser, mae'n amlwg na ellir

<sup>57</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2023, paragraffau 110-113

<sup>58</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 70

<sup>59</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 70

<sup>60</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 129

datrys yr anawsterau recriwtio a chadw drwy gyllid yn unig. Nodwn sylwadau'r Gweinidog am waith i broffesiynoli'r sector, ond rydym wedi clywed ymrwymadau o'r fath o'r blaen, heb unrhyw welliant amlwg.

**84.** Rhaid i recriwtio a chadw staff i weithio yn y sector gofal cymdeithasol fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a rhaid parhau i wneud pob ymdrech i ddenu pobl i'r proffesiwn hanfodol hwn. Nodwn y sylwadau a wnaed gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar waith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu'r gweithlu gofal cymdeithasol. Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nad yw'r cyflog byw gwirioneddol yn ddigon i fynd i'r afael â'r diffygion hirdymor a sylweddol yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Rydym yn cefnogi ei argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i ddarparu diweddariadau bob chwe mis ar waith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol.

**85.** Rydym yn poeni hefyd am yr heriau ehangach o ran recriwtio a chadw staff i weithio mewn rolau llywodraeth leol, er enghraifft, mewn swyddi lefel mynediad. Rydym yn deall y gall elfennau o'r sector preifat gynnig pecynnau mwy cystadleuol i ddenu gweithwyr, a dyna pam mae angen i lywodraeth leol allu dangos bod gweithio yn y sector yn broffesiwn gwerth chweil. Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol i gynnig cynlluniau i raddedigion a phrentisiaethau ac yn credu bod hyn yn hanfodol er mwyn cadw'r gweithlu. Byddem yn croesawu ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth i awdurdodau lleol ehangu'r cynlluniau hyn.

**86.** Rydym yn ymwybodol bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r ddau bwyllgor am sut y mae Gweinidog yr Economi a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn gweithio gyda'i gilydd ar gymhellion i bobl ifanc barhau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau byw. Credwn y gallai hyn gynnwys rôl i brentisiaethau awdurdodau lleol ac rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth i awdurdodau lleol ehangu cynlluniau i raddedigion a phrentisiaethau er mwyn cadw gweithlu medrus.

## Llywodraeth leol gynaliadwy

### Ysgolion

---

**87.** Mae ysgolion yn cyfrif am tua 35 y cant o gyllideb awdurdod lleol. Cadarnhaodd y Gweinidog yn ystod y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft fod £117 miliwn a gafwyd mewn cyllid addysg canlyniadol yn dilyn datganiad hydref y DU “wedi’i drosglwyddo’n llawn” i awdurdodau.<sup>61</sup>

**88.** Mae CLILC yn nodi’r pwysau chwyddiant presennol ar ysgolion yn ei phapur tystiolaeth. Pan gynhaliodd Cymdeithas Trysoryddion Cymru ei harolwg yn 2021, amcangyfrifwyd bod pwysau chwyddiant o ryw £49 miliwn ar y gyllideb addysg ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, mae ei harolwg yn 2022 yn awgrymu ei fod bellach wedi codi i £161 miliwn. Mae’r amcangyfrifon wedi ymgorffori prisiau ynni a chwyddiant cyflog, a hefyd dueddiadau cyffredinol mewn contractau’n cael eu hailbrizio ar werthoedd uwch pan fo gwasanaethau neu waith yn cael eu haildendro. Mae CLILC yn nodi bod hyn yn cynnwys pethau fel contractau bwyd a chynnal a chadw a chludiant rhwng y cartref a’r ysgol:

*“Mae neges gyson ynghylch y pwysau mae cyngorau yn eu hwynebu ar hyn o bryd, sydd yn adrodd bod meysydd megis cludiant o’r cartref i’r ysgol, arlwygo mewn ysgolion a chostau ynni yn achosi pwysau ar gyllidebau refeniw yn barod. Mae un awdurdod yn nodi bod pwysau chwyddiant ar gludiant o’r cartref i’r ysgol £950k yn uwch na’r gyllideb bresennol. Mae chwyddiant wedi gweld contractau’n cael eu pasio’n ôl gan rai darparwyr cludiant. Yn anochel, mae tuedd gyffredinol i gontractau gael eu hailbrizio ar adeg ail-dendro.”<sup>62</sup>*

**89.** Yn ogystal â’r anawsterau o ran cael gyrwyr, nododd CLILC ei phryderon ehangach ynghylch cludiant rhwng y cartref a’r ysgol, gydag un awdurdod yn wynebu “methiant yn y farchnad” gan nad yw wedi cael unrhyw gynigion gan gontractwyr. Nododd CLILC fod yr awdurdod yn ceisio trefniadau amgen, gan gynnwys “sefydlu ei weithredwyr marchnad ei hun”.<sup>63</sup>

**90.** Dywedodd y Cyngorydd Morgan fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi gweld cynnydd o 40 y cant mewn costau cludiant rhwng y cartref a’r ysgol, sy’n cyfateb i dros £4 miliwn. Clywsom fod cost tanwydd, costau chwyddiant a’r ffaith bod y prinder gyrwyr yn cael ei waethygu gan Covid a’r fflw yn golygu bod sicrhau bod pob bws yn gweithredu fel sydd angen yn orchest ddyddiol bron i adrannau trafndiaeth awdurdodau lleol.<sup>64</sup>

**91.** Cydnabu’r Gweinidog yr anawsterau ynghylch argaeledd gyrwyr bysiau a’r pwysau chwyddiant ar ddarparu gwasanaethau cludiant i’r ysgol. Cytunodd i ddarparu rhagor o

<sup>61</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 13 Rhagfyr 2022, paragraff 160

<sup>62</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2023, papur.1

<sup>63</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2023, papur.1

<sup>64</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 130

wybodaeth yn dilyn cyfarfod rhwng y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ar y mater.<sup>65</sup>

**92.** Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd atom ar 31 Ionawr:

*"Mae fy swyddogion wedi cynnal trafodaethau ag awdurdodau lleol a darparwyr cludiant i'r ysgol ledled Cymru ynglŷn â chost gyffredinol cludiant i'r ysgol, wrth iddynt barhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol i ddysgwyr. Mae'r awdurdodau lleol yn cadarnhau bod cost gwasanaethau cludiant i'r ysgol wedi cynyddu'n sylweddol.*

*Mae gwahaniaethau wedi bod ledled Cymru yn y ffordd y mae awdurdodau lleol wedi delio â chynnydd yng nghostau cludiant i'r ysgol. Mae rhai yn darparu cynnydd blynyddol yn ôl chwyddiant i brisiau'r contract yn awtomatig, mae rhai yn ei ddarparu pan ofynnir amdano ac nid yw eraill yn ei ddarparu o gwbl.*

*O ran argaeledd gyrwyr bysiau, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant bysiau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth i gefnogi ac ysgogi'r gwaith o recriwtio a chadw gyrwyr."<sup>66</sup>*

**93.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym hefyd fod "natur gyfnewidiol prisiau tanwydd hefyd wedi bod yn broblem fawr i ddarparwyr cludiant i'r ysgol" a bod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn mynegi ei phryder ynghylch y cynnydd mewn prisiau ynni domestig.

**94.** Cyfeiriodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol hefyd at adolygiad manwl o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sydd i fod i ddigwydd yn fuan, a bydd yn cynnwys y canlynol:

*"consideration of the threshold of home-to-school travel, and also travel support for learners who are in Welsh-medium schools."<sup>67</sup>*

**95.** Yn ei lythyr atom, dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd y byddai'n hapus i rannu manylion yr amserlen ar gyfer yr adolygiad hwnnw gyda ni pan fydd ar gael.<sup>68</sup>

---

<sup>65</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 246

<sup>66</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai 31 Ionawr 2023](#).

<sup>67</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 247

<sup>68</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai 31 Ionawr 2023](#).

---



## Ein barn ni

**96.** Mae gallu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau cludiant i'r ysgol yn peri pryder i ni. Rydym yn croesawu'r adolygiad sydd i ddod o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac rydym yn edrych ymlaen at gael amserlen ar gyfer yr adolygiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd pan fydd ar gael. Mae darparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn hanfodol i ddysgwyr ledled Cymru, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu'r rhai sy'n byw ymhellach o'r ysgol, yn aml i fynd i ysgol Gymraeg neu ysgol ffydd. Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd yr adolygiad yn ystyried y trothwy teithio rhwng y cartref a'r ysgol ond, pe bai unrhyw newidiadau yn cael eu hargymell, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau i fodloni unrhyw ofynion ychwanegol, gan ei bod yn glir bod y gofynion presennol yn achosi pwysau.

## Datgarboneiddio

---

**97.** Mae awdurdodau lleol wedi gwneud nifer o ymrwymadau i gyfrannu at y targed Sero Net erbyn 2030, sy'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, er enghraifft, mewn cerbydau carbon isel ac ôl-osod eiddo cynghorau i sicrhau effeithlonrwydd ynni. Mae CLILC yn nodi y bydd angen "ystod eang o ffrydiau ariannu i wneud y math o newidiadau sydd eu hangen ar y cyflymder gofynnol."<sup>69</sup>

**98.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £20 miliwn mewn cyllid cyfalaf ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25 ar gyfer rhaglenni datgarboneiddio llywodraeth leol. Mae rhywfaint o gyllid refeniw hefyd o fewn y Llinell Wariant Gwella a Chefnogi a'r Llinell Wariant Ystadau Cymru, gyda'r Gweinidog yn nodi yn ei phapur y bydd yn "helpu â chynlluniau i ddatgarboneiddio ystadau Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru."<sup>70</sup>

**99.** Dywedodd y Cynghorydd Morgan wrthym fod rhai o'r newidiadau y mae awdurdodau lleol yn eu gwneud yn golygu cost sylweddol. Clywsom fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi comisiynu adroddiadau ac wedi ymrwymo i newid rhannau o'u fflydoedd i gerbydau trydan. Fodd bynnag, roedd y gost uchel (tua £20,000 i £25,000 yn ddrytach), bywyd batri byr a diffyg capasiti grid yn rhwystrau i newid cerbydau mwy o faint megis loris glanhau neu dryciau *pick-up* priffyrdd i gerbydau trydan.<sup>71</sup>

---

<sup>69</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2023, [Papur.1](#)

<sup>70</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2023, [Papur.2](#)

<sup>71</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 136

---

**100.** Disgrifiodd y Cynghorydd Hunt yr her o awdurdodau lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni sero net erbyn 2030 fel un angenrheidiol a hanfodol, ond ychwanegodd fod costau anochel yn y tymor byr, hyd yn oed os oes arbedion weithiau yn y tymor hwy.

**101.** Cyfeiriodd y Cynghorydd Hunt at enghraifft arall, sef adeiladu ysgolion newydd:

*"Of course we'd hope to make a revenue saving if those are net-zero schools, because we look to be, in the longer term, paying less for the heating and lighting costs of those schools. But in the short term, there is a large construction cost to building them to those standards."*

**102.** Daeth y Cynghorydd Hunt i'r casgliad a ganlyn, er gwaethaf yr heriau:

*"That doesn't make it any less necessary, but there are certainly costs attached to it in an environment [...] of significant pressures."<sup>72</sup>*

**103.** Cydnabu'r Gweinidog gydnabod y bydd cyflawni sero net o fewn y sector cyhoeddus erbyn 2030 yn heriol iawn, ond mae'n dadlau y gall gwneud y peth iawn fod yr opsiwn fforddiadwy hefyd.<sup>73</sup> Ychwanegodd y Gweinidog y gall diffyg gweithredu fod yn gostus hefyd, gan gyfeirio at lifogydd fel enghraifft, a chyfeiriodd at natur ataliol teithio llesol o ran helpu iechyd a lles a lleihau llygredd. Roedd y Gweinidog yn ymwybodol o broblemau gyda chapasiti'r grid mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, a chytunodd y byddai'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn darparu rhagor o wybodaeth.

**104.** Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd atom ar 31 Ionawr. Dywedodd:

*"Fis Gorffennaf y llynedd, nododd Gweithredwr System Drydan y Grid Cenedlaethol fod angen cyswllt trawsyrru rhwng y Gogledd a'r De, a bydd rhaid i Rwydwaith Trawsyrru Trydan y Grid Cenedlaethol edrych yn awr ar opsiynau ar gyfer llwybrau. Rydym wrthi'n chwilio am y cyfle cyntaf i gyfrannu at y broses hon a nodi sut y gall sicrhau atebion ar gyfer yr heriau y mae Cymru yn eu hwynebu o ran y grid."<sup>74</sup>*

**105.** Dywedodd swyddog Llywodraeth Cymru wrthym am waith sy'n cael ei wneud gan Ystadau Cymru gydag awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio eu hystadau a bod arian wedi cael ei

---

<sup>72</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 140

<sup>73</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 238

<sup>74</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai 31 Ionawr 2023](#).

---

ddarparu yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y gwaith hwnnw.<sup>75</sup> Aeth y swyddog ymlaen i ddweud y canlynol mewn perthynas â thrydaneiddio cerbydau fflyd:

*"... the power of the public sector to procure at a national level is much greater, and much cheaper, not just in terms of the procurement process itself, but also the vehicles or the products that are being procured, than any sort of single organisation could undertake on its own."*<sup>76</sup>

## Ein barn ni

**106.** Er y bydd trosglwyddo i gerbydau trydan yn cyflwyno manteision ariannol ac amgylcheddol hirdymor, rydym yn cydnabod bod gwneud ymrwymïadau ariannol yn awr yn her i awdurdodau lleol. Mae'n glir bod awdurdodau lleol yn derbyn yr her honno a'u bod yn gweithio'n galed i wneud y newidiadau y mae angen iddynt eu gwneud. Nodwn y sylwadau a wnaed gan swyddog Llywodraeth Cymru ynghylch pŵer y sector cyhoeddus i gaffael ar lefel genedlaethol, a hoffem gael mwy o wybodaeth am y cyfleoedd i awdurdodau lleol gyfuno eu pŵer prynu i sicrhau dulliau costeffeithiol o gaffael cerbydau trydan.

**107.** Mae'r materion a godwyd mewn perthynas â chapasiti'r grid mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol yn bryder ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy cyn i'r awdurdodau drosglwyddo eu holl gerbydau. Mae angen ateb ar frys er mwyn osgoi sefyllfa lle nad oes modd defnyddio cerbydau trydan newydd oherwydd diffyg capasiti gwefru. Rydym yn sylweddoli bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd gan lywodraeth leol. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Grid Cenedlaethol, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod digon o gapasiti rhwydwaith a phwyntiau gwefru ledled Cymru.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru fachu ar bob cyfle i gyfrannu at gynlluniau a dylanwadu ar gynlluniau i ddatblygu'r rhwydwaith grid ar draws Cymru ar frys i fynd i'r afael â chapasiti'r rhwydwaith ar gyfer gwefru cerbydau trydan.

**108.** Mae gennym ddiddordeb yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan Ystadau Cymru gyda llywodraeth leol i ddatgarboneiddio eu hystadau. Gofynnwn i'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Ystadau Cymru i ddatgarboneiddio ystad llywodraeth leol, gan gynnwys sut y mae'n disgwyl i'r cyllid a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 gael ei ddefnyddio.

<sup>75</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 240

<sup>76</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 241

## Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

**109.** Y dyraniad ar gyfer Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yw £3.19 miliwn yn 2023-24 ac mae'n codi i £3.44 miliwn yn 2024-25. Mae hyn yn is na dyraniadau blaenorol: dyrannwyd £3.5 miliwn yn 2021-22 a £3.69 miliwn yn 2022-23. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wrthym:

*"the budget is for refurbishing existing accommodation, constructing new pitches and improving the sustainability of sites. The proposed budget for this financial year is £3.19 million. That is lower than in previous years, but as I understand it, that amount is deemed to be sufficient to meet the proposals that have been received and the commitments that have been made."*<sup>77</sup>

**110.** Yn ystod ein gwaith ar ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gwelsom fod diffyg ymgysylltu uniongyrchol ac ymgynghori â Sipsiwn, Roma a Theithwyr ynglŷn â'u hanghenion llety. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y cyllid yn ddigonol i gyflawni'r cynigion a dderbyniwyd. Fodd bynnag, dywedodd:

*"I think that the Minister for Social Justice would acknowledge that there's definitely more work to be doing in terms of engaging with the community themselves to understand what it is the community would like to see provided."*<sup>78</sup>

**111.** Cawsom dystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad fod cyllid grant yn cael ei danwario ar y cyfan. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*"If there are underspends emerging, then I need to understand the reason for that. This particular budget line has underspent in recent years, and that's because there haven't been sufficient numbers of projects coming forward. Those are the things that I need to understand to help ensure that we are delivering value for money."*<sup>79</sup>

**112.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn gofyn iddi gadarnhau cyfanswm y gwariant o'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr o gyllideb 2022-23.<sup>80</sup> Atebodd:

---

<sup>77</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 170

<sup>78</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 172

<sup>79</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 174

<sup>80</sup> Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 19 Ionawr 2023

*"Mae gan y Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gyllideb gyfalaf o £3.690m yn y flwyddyn ariannol 2022-23. Hyd yn hyn, ni fu unrhyw wariant yn erbyn y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb yn y flwyddyn ariannol hon, ac ni ragwelir y bydd unrhyw wariant cyn 31 Mawrth 2023."<sup>81</sup>*

## Ein barn ni

**113.** Rydym yn pryderu bod yr arian a ddyrannwyd i'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol, yn enwedig oherwydd, yn ystod ein hymchwiliad i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr, clywsom a gwelsom fod angen cynnal a chadw neu adnewyddu rhai safleoedd awdurdod lleol ar frys. Yn sgil hyn, syndod oedd clywed nad oedd y grant cyfalaf wedi'i wario o gwbl yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac ni ragwelir unrhyw wariant cyn diwedd mis Mawrth. Mae hyn yn dangos yn glir pam i ni benderfynu ymgymryd â'r gwaith hwn ar ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac mae'n taflu goleuni ar faint y problemau o ran darparu llety digonol ac addas.

**114.** Rydym yn poeni bod y tanwariant yn ganlyniad i ddiffyg ymgynghori â chymunedau ar y gwelliannau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom fod ymgysylltu yn docenistaidd yn rhy aml, ac rydym yn ofni bod y tanwariant yn y maes hwn yn dystiolaeth o hynny. O ystyried y dystiolaeth a glywsom a chyflwr rhai o'r safleoedd a welsom, mae'n bryder enbyd bod y cyllid ar gael i wneud cynnydd cadarnhaol ond nad yw'n cael ei ddefnyddio. Yn anffodus, mae'n awgrymu bod hon yn flaenoriaeth isel i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ac mae'n rhywbeth y mae angen mynd i'r afael ag ef ar unwaith.

**115.** Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r rhesymau dros y diffyg cynnydd hyd yma fel mater o frys a sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y gronfa bwysig hon yn cael ei defnyddio. Rydym yn cytuno hefyd y dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn a fydd yn digwydd i'r £3.690 miliwn nas gwariwyd ac y dylai unrhyw arian sydd heb ei wario gael ei ddyrannu i gamau gweithredu yn y maes hwn. Rydym yn falch o wneud argymhelliad ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i amlinellu'r rhesymau dros y diffyg cynnydd o ran y defnydd o'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y gronfa

---

<sup>81</sup> Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Cadeirydd 24 Ionawr 2023](#)

bwysig hon yn cael ei defnyddio. Ymhellach, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn a fydd yn digwydd i'r £3.690 miliwn nas gwariwyd o gyllideb 2022-23, a chadarnhau y bydd yn cael ei ddyrannu i gamau gweithredu yn y maes hwn.

## 3. Tai

### Digartrefedd a chymorth tai

**116.** Dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd wrthym fod digartrefedd a gwasanaethau cymorth ar gyfer digartrefedd wedi cael eu blaenoriaethu yn y gyllideb hon.<sup>82</sup>

#### Digartrefedd

---

**117.** Mae cyllideb ddrafft 2023-24 yn dangos dyraniad refeniw o £46.147 miliwn ar gyfer Llinell Wariant digartrefedd, sy'n gynydd o £15 miliwn o gymharu â chyllideb derfynol 2022-23, a £10 miliwn yn fwy na'r dyraniad dangosol blaenorol. Mae papur y Gweinidog yn nodi:

*"Bydd cyllid refeniw ychwanegol o £10m yn y gyllideb Atal Digartrefedd yn rhoi hwb i'r buddsoddi mewn atal digartrefedd ac ymyriadau lliniaru ledled Cymru, yn helpu awdurdodau lleol i barhau â'n hegwyddor o 'beidio ag anghofio am heb', yn ogystal â pharhau i gefnogi datblygiad cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref drwy estyn ein Cynllun Lesio Cenedlaethol."<sup>83</sup>*

**118.** Mae papur y Gweinidog yn nodi'r niferoedd digynsail o bobl sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd a'r pwysau ar adnoddau awdurdodau lleol o ganlyniad i hyn. Mae'r [data diweddaraf](#) (a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2022) yn cwmpasu mis Hydref 2022, ac mae'n dangos bod 1,567 o bobl a oedd yn nodi eu bod yn ddigartref wedi eu rhoi mewn llety dros dro yn ystod y mis, 53 yn fwy nag yn y mis blaenorol. Ar 31 Hydref 2022, roedd 8,906 o bobl mewn llety dros dro – roedd 2,672 o'r rhain yn blant dibynnol o dan 16 oed. Symudwyd bron i 800 o bobl i lety hirdymor addas yn ystod mis Hydref 2022. Ar 31 Hydref 2022, amcangyfrifwyd bod 127 o bobl yn cysgu allan, sef gostyngiad o 33 ers y mis blaenorol.

**119.** Mae ein hymchwiliad presennol i [ddigartrefedd](#) wedi tynnu sylw at y pwysau difrifol sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth iddynt geisio sicrhau bod llety dros dro'n cael ei ddarparu i'r rhai sydd ei angen. Mae ymateb CLILC i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft yn nodi,

---

<sup>82</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 11

<sup>83</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Ionawr 2023, [Papur..1](#)

ynghylch y duedd ar i fyny yn nifer y bobl sy'n ceisio llety dros dro brys, "nid yw'n ymddangos y bydd hynny'n lleihau'n fuan".<sup>84</sup> Maent hefyd yn dweud y gallai pwysau costau byw, megis rhenti'r sector preifat a chostau morgeisi uwch, ychwanegu at bwysau ar lety dros dro.

**120.** Cydnabu'r Gweinidog effaith yr argyfwng costau byw ar ddigartrefedd, gan nodi bod y pwysau costau byw y mae pobl yn ei wynebu yn ychwanegu at y sbardunau sy'n arwain at bobl yn colli eu cartref.<sup>85</sup> Oherwydd hynny, er gwaethaf y pwysau ariannol presennol, dywedodd nad yw Llywodraeth Cymru yn mynd i gefnu ar ei pholisi 'neb yn cael ei adael allan' ac, yn hytrach, ei bod yn buddsoddi £10 miliwn ychwanegol yn y gyllideb atal digartrefedd:

*"We do not want to push individuals towards seeking homelessness support from the local authority; we want them to go into homelessness prevention support, and we want to try to keep people in their homes where at all possible."<sup>86</sup>*

**121.** Esboniodd y Gweinidog mai nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu'r gwasanaethau atal i'w galluogi i wneud y canlynol:

*"...take money out of the sharp end, where it hopefully will no longer be needed [...] and put it back into the programmes and build the houses that keep people safe and secure in the first place."<sup>87</sup>*

**122.** Trafododd y Gweinidog a'i swyddogion bwysigrwydd gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru ar fesurau atal. Rhoddodd un o'i swyddogion yr enghraifft o gyllid o'r portffolio tai yn mynd drwy'r portffolio addysg er mwyn cael yr effaith fwyaf ataliol:

*"...in youth homelessness, the prevention angle is all-important, engaging with young people when they're starting to hit difficulties, and often school is the first place that can see those difficulties occurring. We direct funds through our colleagues in education and the youth support system in order to be able to try and identify and link up those young people who are starting to face the kind of difficulties that we know often lead to youth homelessness situations".<sup>88</sup>*

## Grant Cymorth Tai

<sup>84</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2023, [Papur.1](#)

<sup>85</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 11

<sup>86</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 11

<sup>87</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 29

<sup>88</sup> Paragraff 30

**123.** Mae Dyranriad y Grant Cymorth Tai ("HSG") yn dal i fod yn £166.8 miliwn yn nhermau arian parod, sy'n ostyngiad mewn termau real. HSG yw prif ffrwd ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd a chefnogi byw'n annibynnol. Mae'n helpu tua 60,000 o bobl bob blwyddyn.

**124.** Cysylltodd Cymorth Cymru â ni ar ôl i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi, gan dynnu sylw at lythyr yr oedden nhw, ynghyd â Cymorth i Ferched Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru, wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru cyn ei chyhoeddiad am y gyllideb. Er bod y llythyr yn nodi'r cynnydd mewn cyllid HSG yn ystod y pandemig (bu cynnydd o £40 miliwn yn 2021-22), mae'n gwneud y sylw canlynol:

*"...services funded by this grant are absolutely critical to the prevention and alleviation of homelessness, and we are deeply concerned that failure to increase the grant for 2023/24 will put them at significant risk at a time when they will be more important than ever."*<sup>89</sup>

**125.** Yn ogystal â chostau refeniw eraill, mae HSG yn darparu cyllid ar gyfer cyflogau staff. Mae dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft yn tynnu sylw at adroddiad a gyhoeddwyd gan Cymorth Cymru ar effaith yr argyfwng costau byw ar staff cymorth rheg flaen tai a digartrefedd. Yn ôl yr adroddiad hwnnw, roedd 44 y cant o staff yn cael trafferth talu biliau.

**126.** Cydnabu'r Gweinidog y gallai Llywodraeth Cymru gyfrannu llawer mwy pe bai ganddi'r arian:

*"Our own budget is eroded by inflation as well. It was an enormous struggle to maintain the increase in those budgets; those budgets were not what they call 'baselined' in the first place and we have managed to do that. And I know that that, on the outside, looks like a real-terms cut, because, of course, we're in an inflationary spiral and inflation erodes all of the money that we all have. But, I can assure you that I am acutely aware of the problems in housing support and my heart absolutely goes out to people on the front line. I pay tribute to them every single day; they do the most incredible job, particularly the housing outreach workers, who are amazing human beings. And, as soon as there is any available money, we will be putting more into this area."*<sup>90</sup>

## **Lwfans Tai Lleol**

---

**127.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod penderfyniad Llywodraeth y DU i rewi'r lwfans tai lleol wedi bod yn drychinebus. Dywedodd:

---

<sup>89</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Ionawr 2023, Papur 7.

<sup>90</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 15

---



*"...anyone who's on any kind of universal credit has had the housing part of their allowance frozen, and we know of people having to pay more than 50 per cent of their income on housing, and the housing allowance is actually paying for 3 per cent of it. It's just appalling, and I just do not understand the financial logic of that, because all that's doing is putting a further burden on the public purse."*<sup>91</sup>

**128.** Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ymbil ar Lywodraeth y DU i adfer y lwfansau tai lleol, o leiaf i'r lefel blaenorol o 30 y cant, ond y dylai fod yn 50 y cant mewn gwirionedd.<sup>92</sup>

### Ein barn ni

**129.** Rydym yn poeni'n fawr am y nifer ddigynsail o bobl sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd yng Nghymru a'r pwysau difrifol y mae hyn yn ei roi ar adnoddau gwasanaethau cymorth. Rydym yn croesawu'r cyllid refeniw ychwanegol o £10 miliwn ar gyfer atal digartrefedd, ond rydym yn poeni nad yw hyn yn ddigon i ymdrin â'r heriau a wynebir ar hyn o bryd.

**130.** Rydym yn cytuno â'r Gweinidog y dylai atal digartrefedd fod yn flaenoriaeth, ac rydym yn falch ei bod yn gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru, er enghraifft, addysg, ar fesurau atal. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi mwy o fanylion am waith ar draws adrannau i atal digartrefedd.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n gweithio gydag adrannau eraill ar fesurau atal digartrefedd.

**131.** Rydym yn gwerthfawrogi'r heriau sy'n wynebu'r Gweinidog o ran gosod y gyllideb ddrafft hon. Fodd bynnag, rydym yn poeni bod y Grant Cymorth Tai yn dal i fod yn £166.8 miliwn yn nhermau arian parod, sy'n ostyngiad mewn termau real. Fel y clywsom gan randdeiliaid, mae gwasanaethau a ariennir gan y grant hwn yn hollbwysig o ran atal a lliniaru digartrefedd. Felly, rydym yn poeni am yr effaith y bydd y gostyngiad yn ei chael ar y gwasanaethau hanfodol hyn, ar adeg pan rydym yn dibynnu arnynt yn fwy nag erioed, o ystyried nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn ddigartref. Mae'r ffaith bod staff rheng flaen sy'n gweithio'n galed iawn yn ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd yn peri pryder hefyd.

**132.** Rydym yn derbyn nad oes digon o gyllid ar gael ar gyfer yr heriau presennol ac yn cydnabod bod y Gweinidog yn parhau i graffu ar y gyllideb bob dydd am ffyrdd o gynyddu

<sup>91</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 112

<sup>92</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 112

dyraniadau. Cyn y gyllideb derfynol, byddem yn annog y Gweinidog i archwilio'r holl lwybrau sydd ar gael i gynyddu dyraniad y Grant Cymorth Tai, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd y gronfa hanfodol hon yn ystod yr argyfwng costau byw. Mae'r Grant Cymorth tai yn rhan allweddol o wariant ataliol. Tynnodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog i ni sylw at ymchwil a amcangyfrifodd fod gwasanaethau cyhoeddus yn arbed £1.40 am bob £1 sy'n cael ei wario ar y grant. Mae'r arbedion yn uwch fyth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl<sup>93</sup>

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer dyraniad y Grant Cymorth Tai cyn y gyllideb derfynol, a dylai archwilio'r holl opsiynau posibl ar gyfer gwneud hynny.

**133.** Rydym yn pryderu, o ganlyniad i gostau ynni cynyddol a chynnydd mewn rhenti'r sector preifat, bod llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau. Credwn fod penderfyniad Llywodraeth y DU i rewi cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn niweidiol. Roedd hi'n dda clywed bod Llywodraeth Cymru yn ymbil ar Lywodraeth y DU i ddychwelyd y lwfansau i o leiaf y 30ain ganradd o renti'r farchnad leol fel yr oeddent yn flaenorol, a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu yn y maes hwn.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau y mae'n eu cymryd i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU i gynyddu cyfradd y Lwfans Tai Lleol i o leiaf 30ain ganradd o renti'r farchnad leol.

## Y cyflenwad tai

### Tai newydd fforddiadwy

---

**134.** Y dyraniad yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Grantiau Tai Cymdeithasol yn 2023-24 yw £330 miliwn. Mae hyn yn gynydd o £20 miliwn ers dyraniad Cyllideb Derfynol 2022-23 ac yn unol â dyraniadau dangosol a gyhoeddwyd yn flaenorol.

**135.** Y rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol yw prif grant cyfalaf Llywodraeth Cymru sy'n cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu tai fforddiadwy. Mae ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ogystal ag awdurdodau lleol.

---

<sup>93</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Ionawr 2023, [papur.1](#)

**136.** Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru mewn tystiolaeth i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid cyn cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft nad yw adeiladu cartrefi erioed wedi bod yn anoddach yng Nghymru.<sup>94</sup> Mae'n nodi rhai o'r rhwystrau i ddarparu mwy o dai fforddiadwy:

- Cynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant a thrafferthion mewn cadwyni cyflenwi, a'u heffaith ar y farchnad adeiladu yng Nghymru;
- Heriau o ran cadw a recriwtio staff ar ôl Covid, gan arwain at ddiffyg arbenigwyr medrus a staff craidd eraill ar draws cynllunio, rheoli'r amgylchedd ac adeiladu;
- Diffyg goruchwyliaeth strategol ac awydd i fynd i'r afael â'r argyfwng tai ar draws rhanddeiliaid allweddol a all ddylanwadu ar gyflawni'r gwaith o ddatblygu tai cymdeithasol; a
- Diffyg cydlynid rhwng cymeradwyaethau rheoli'r amgylchedd a'r system gynllunio.

**137.** O ystyried pwysau chwyddiant, mae Gweinidogion wedi mynd i'r afael â phryderon na fydd dyraniadau'r gyllideb yn darparu cymaint o gartrefi ag y tybiwyd yn flaenorol, neu y bydd yn cymryd mwy o amser i ddarparu'r cartrefi hynny. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr 2022, nododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol effaith y pwysau hwn ar brosiectau cyfalaf. Nododd y gallai'r 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd ar gyfer y targed rhentu gynnwys cartrefi presennol yn cael eu dwyn yn ôl i'w meddiannu, yn hytrach na dim ond cartrefi newydd.<sup>95</sup>

**138.** Cadarnhawyd hyn gan y Gweinidog Newid Hinsawdd. Dywedodd wrthym y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol i'w rhentu<sup>96</sup> ond y bydd yn ei chael hi'n anodd darparu 20,000 o gartrefi newydd:

*"What we will be able to do is ensure that we have 20,000 additional social homes for rent as a result of a number of other programmes that are also running, and because of the volatility of the housing market."<sup>97</sup>*

**139.** Aeth yn ei blaen i ddweud:

*"... we are still hoping and working towards the 20,000 new build. However, when we started I thought we would get to the 20,000 new builds no problem, and I would be happily telling the committee that we'd also got a*

<sup>94</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 23-24 27 Community Housing Cymru](#)

<sup>95</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 12

<sup>96</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 41

<sup>97</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 37

*number of empty homes and lease schemes and all the rest of it, and that is not the case now. The world has very much shifted and the inflationary spiral has made a huge, huge dent in that, there's no doubt.*<sup>98</sup>

**140.** Fodd bynnag, nododd y gallai'r sefyllfa newid yn dibynnu ar y cadwyni cyflenwi ac argaeledd deunyddiau.<sup>99</sup>

**141.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru'n wynebu pob math o broblemau gyda safleoedd yn cael eu dal i fyny oherwydd ffosffadau mewn afonydd.<sup>100</sup> Esboniodd fod cyfres o gyfarfodydd wedi'u cynnal i geisio datrys y problemau:

*"There's one this month now that's being chaired by the chair of Natural Resources Wales, and then there's another summit chaired by the First Minister on 6 February. We have a whole series of work streams going there, so I'm very hopeful indeed that we'll be able to action some of the solutions that are coming forward. I attended a number of the meetings myself, and I'm very, very hopeful that we will have an agreed action plan across the piece for that summit in February".*<sup>101</sup>

**142.** Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud ei bod yn gobeithio y bydd yn datgloi nifer o safleoedd tai ledled Cymru, ac y byddant wedyn yn gallu cyflymu'r gwaith, a'u bod yn barod i wneud hynny.<sup>102</sup>

**143.** O ran cyllid ar gyfer datgloi'r safleoedd hyn, dywedodd y Gweinidog nad yw'n hysbys beth fydd ei angen gan Lywodraeth Cymru hyd nes y bydd y cynllun gweithredu'n cael ei gymeradwyo. Dywedodd:

*"It's hard to imagine that there won't be an investment programme needed for some areas, but we'll have to have a look at what those areas are and how they're currently supported by Welsh Government funding, and then we'll have to have a look at what that funding is able to morph into in order to support the programme."*<sup>103</sup>

---

<sup>98</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 39

<sup>99</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 40

<sup>100</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 34

<sup>101</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 34

<sup>102</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 35

<sup>103</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 43

---

## Ein barn ni

**144.** Rydym yn cydnabod y rhwystrau i ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd, gan gynnwys cynnydd mewn costau deunyddiau a materion yn ymwneud â chadwyni cyflenwi a'r gweithlu. Rydym yn cydnabod brwdfrydedd y Gweinidog bod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol i'w rhentu, hyd yn oed os na fydd y rheini i gyd yn adeiladau newydd, ond rydym yn dal i boeni a fydd yn gallu cyrraedd y targed hwn.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol i'w rhentu o ystyried y cyllid sydd ar gael iddi. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd barhau i ddangos tryloywder o ran sut y mae'n ceisio cyrraedd ei tharged o 20,000 o gartrefi a myfyrio ar gynnydd wrth i ddata ddod ar gael.

**145.** Rydym yn pryderu bod y gwaith o ddatblygu rhai cartrefi fforddiadwy newydd ar stop oherwydd materion yn ymwneud â ffosffadau. Ein gobaith yw y gellir cytuno ar gynllun gweithredu i ddatrys materion ffosffad yn uwchgynhadledd y Prif Weinidog ym mis Chwefror 2023 fel y gellir cyflymu'r gwaith ar y safleoedd hyn. Er hynny, rydym yn poeni nad yw'r goblygiadau o ran costau i Lywodraeth Cymru yn hysbys. Gofynnwn felly i Lywodraeth Cymru ein diweddarau ar ôl cytuno ar gynllun gweithredu a darparu amcangyfrif o'r costau gweithredu i ni, gan gynnwys o ble y daw'r cyllid.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor yn dilyn yr uwchgynhadledd ym mis Chwefror 2023 er mwyn canfod ateb i effaith materion ffosffad ar adeiladu tai. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys costau tebygol y cynllun gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a dylai nodi o ble y daw'r cyllid.

## Cartrefi gwag

---

**146.** Mae papur y Gweinidog yn tynnu sylw at ddyraniad o £25 miliwn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 a'r flwyddyn ganlynol ar gyfer Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol. Bydd gofyn i awdurdodau lleol gyfrannu 10 y cant o'u dyraniadau tybiannol bob blwyddyn. Mae'r grant yn ceisio dod â hyd at 2,000 o eiddo gwag hirdymor yn ôl i feddiant. Ar hyn o bryd, mae dros 22,000 o eiddo gwag hirdymor (gwag am fwy na chwe mis) yn ôl [cofnodion y dreth gyngor](#).

**147.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi sbarduno'r rhaglen cartrefi gwag, gan nodi ei fod yn warthus bod cartrefi gwag yng Nghymru a phobl mewn llety dros dro.<sup>104</sup>

**148.** Esboniodd y Gweinidog fod cyfres o wahanol grantiau ar gael, yn dibynnu ar beth sy'n digwydd i'r cartref gwag:

*"...if you want to live in it yourself, you have to live in it for at least five years or you have to repay the grant. You can also hand it to Leasing Scheme Wales [...] and then Leasing Scheme Wales will allow you to access a different set of grants that will allow the property to be brought to standard so that it can be let out. And that's a minimum of five years and a maximum of 20, and we encourage people to do that for as long as possible, and then the grant varies depending on what the use is and how long we have the home for."<sup>105</sup>*

**149.** Ar 30 Ionawr 2023, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi £50 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf i ddod â mwy o eiddo gwag ledled Cymru yn ôl i ddefnydd drwy gynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol.

**150.** Clywsom hefyd fod gwaith yn cael ei wneud ar orfodaeth i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd gan fod perchnogion nad ydynt yn rhagweithiol iawn o ran cyflwyno eu hunain a chael mynediad at y grant. Felly, mae camau gorfodi gan yr awdurdod lleol yn ffordd allweddol o roi'r camau hynny ar waith. Clywsom fod tua 850 o aelodau a swyddogion ar draws llywodraeth leol wedi derbyn hyfforddiant i'w helpu i allu defnyddio'r camau gorfodi sydd ar gael iddynt i ddod â'r eiddo hynny yn ôl i ddefnydd.<sup>106</sup>

## Ein barn ni

**151.** O ystyried yr heriau a'r materion presennol yn ymwneud â'r cyflenwad tai, rydym yn falch o weld ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'n warthus bod cartrefi gwag yng Nghymru tra bod nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro yn cynyddu.

**152.** Roeddem yn falch o glywed am yr holl waith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn, gan gynnwys yr amrywiaeth o grantiau sydd ar gael a'r cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, o ystyried y materion yn ymwneud â chost ac

---

<sup>104</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 36

<sup>105</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 55

<sup>106</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 58

---

argaeledd gweithwyr a deunyddiau, rydym yn poeni a yw'r dyraniad yn ddigon i gynnal cynnydd.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa asesiad a wnaed o effaith y cynnydd yng nghostau gweithwyr a deunyddiau wrth bennu dyraniad y gyllideb ar gyfer cartrefi gwag ac a yw'r dyraniad yn ddigon i gynnal cynnydd yn y maes hwn o ystyried y costau cynyddol hyn.

**153.** Er ein bod yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi awdurdodau lleol i ymdrin ag eiddo gwag, gan gynnwys darparu hyfforddiant ar y pwerau gorfodi sydd ar gael iddynt, credwn hefyd y gallai asiantiaid eiddo ac asiantiaid gosod eiddo wneud cyfraniad o ran cefnogi pobl i fuddsoddi mewn cartrefi gwag.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n gweithio gydag asiantiaid eiddo ac asiantiaid gosod eiddo i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

## Ail gartrefi

**154.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gymryd camau i roi cap ar nifer yr ail gartrefi, dod â mwy o gartrefi i berchnogaeth ar y cyd a thrwyddedu llety gwyliau. Roedd ymrwymiad hefyd i greu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

**155.** Mae papur y Gweinidog yn nodi dyraniadau penodol yn y gyllideb sy'n cefnogi'r gwaith hwn, gan gynnwys:

- Bydd cyllid refeniw ychwanegol o £0.6 miliwn i gychwyn yn cefnogi'r gwahanol linynnau gweithgarwch o fewn y Cynllun Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd yn Nwyfor. Bydd hyn yn ariannu uwch reolwr cynllun peilot yn Llywodraeth Cymru, dau aelod o staff ymroddedig yn ardal y cynllun peilot, gwerthuso a chyfnwid arfer da; ac
- £8.5 miliwn ychwanegol dros dair blynedd i gefnogi Cymorth Prynu yn ardal y cynllun peilot. Mae dyraniad cyfalaf o £2.5 miliwn yn 2023-24 a £4 miliwn yn 2024-25.

**156.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y Cynllun Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd yn Nwyfor yn mynd yn dda a bod Llywodraeth Cymru yn falch iawn o rai o'r pethau sydd wedi digwydd yn gyflym yn y cynllun peilot. Aeth ymlaen i ddweud:

*"We're going to be doing a lot of analysis coming out of the pilot work, and we've been doing a piece of work with Gwynedd Council about how much money they need to implement an article 4 direction, if that is what they*

*decide to do. They have to do the evidential piece of work first, so we've been working with them to understand what the resource to put the evidence together looks like. Whether they then have the evidence or not, of course, will—. Whether they do the direction, will depend on what the evidence shows them. So, we're still in the process of working with the council to understand what that looks like. We made a commitment to Gwynedd Council that we would help them fund that, because that's the point of the pilot, and then we'll have to look at what would happen if we rolled that out across Wales. So, it's very much on train.*<sup>107</sup>

**157.** Dywedodd y Gweinidog fod y cynllun peilot yn cael ei ariannu'n ddigon da ar hyn o bryd ond nad oedd yn gallu dweud wrthym a fydd Llywodraeth Cymru yn gallu ei gyflwyno'n ehangach mor gyflym ag yr hoffai gan y byddai am aros nes bod canlyniadau'r dadansoddiad ar gael.<sup>108</sup>

### **Ein barn ni**

**158.** Nodwn fod y Cynllun Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd yn Nwyfor yn parhau a bod Llywodraeth Cymru yn falch o rai o'r camau cyflym a gymerwyd yn ystod y cynllun peilot.

**159.** Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad o'r cynllun peilot. Nodwn ei bod wedi derbyn yr argymhelliad yn ein hadroddiad ar [Ail Gartrefi](#) y dylai roi diweddariadau i'r Senedd bob chwe mis ar ddatblygiadau yng nghynllun peilot Dwyfor, gan gynnwys ei hasesiad o effeithiolrwydd y mesurau a sail yr asesiad hwnnw, ac y dylai'r diweddariadau gynnwys sut y mae'r effeithiolrwydd yn cael ei werthuso. Darparwyd y [diweddariad cyntaf ar gynnydd yn ardal y cynllun peilot](#) ar 26 Ionawr ac edrychwn ymlaen at dderbyn diweddariadau yn y dyfodol.

### **Diogelwch adeiladau**

---

**160.** I gefnogi diogelwch adeiladau, mae dyraniadau refeniw o £6 miliwn yn 2023-4 a £6.5 miliwn yn 2024-25. Mae dyraniadau cyfalaf o £135 miliwn yn 2023-24 a £165 miliwn yn 2024-25.

**161.** Mae papur y Gweinidog yn nodi yr agorodd Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru ar 30 Medi 2021 a bod cyllid refeniw Llywodraeth Cymru yn cefnogi arolygon diogelwch tân digidol ac "ymwthiol". Mae'r gronfa wedi cael 261 o ddatganiadau o ddiddordeb (ar 20 Medi 2022) ac mae

---

<sup>107</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 143

<sup>108</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 144

---



pob eiddo wedi cael arolwg digidol. Mae 163 o adeiladau angen arolygon ymwithiol pellach, gyda 105 wedi'u cwblhau erbyn dyddiad papur y Gweinidog.

**162.** Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn trafod gyda datblygwyr "...i sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod datblygwyr yn talu i adfer materion diogelwch tân."<sup>109</sup> Mae hyn yn cynnwys cytuno i Gytundeb Datblygwyr. Mae rhywfaint o gymorth i lesddeiliaid ar gael hefyd. Mae papur y Gweinidog yn nodi'r canlynol:

*"Bydd cyllid cyfalaf yn cefnogi'r gwaith o gyweirio adeiladau a chefnogi lesddeiliaid."*<sup>110</sup>

**163.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod rhai adeiladau bellach yn cael eu hadfer a bod y rhan fwyaf, os nad pob un, o'r arolygon wedi'u cwblhau.<sup>111</sup> O ran talu am waith adfer, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a yw'r arolygon a gynhaliwyd hyd yma wedi galluogi Llywodraeth Cymru i amcangyfrif cyfanswm cost y gwaith adfer adeiladau. Dywedodd y Gweinidog, oherwydd bod pob adeilad yn gwbl unigryw, nad oes ffordd o ragamcanu'r gost o ganlyniad i gynnal rhai arolygon.<sup>112</sup> O ran cyllid a ddyrannwyd ar gyfer gwaith adfer, aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

*"... we've got an envelope for it that we expect to be enough for that and we've obviously worked with the developers to make sure that they step up to the mark. We're having a conversation with the developers at the moment; we're at the signing of the legal documents stage."*<sup>113</sup>

**164.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r datblygwyr am y ffordd orau o ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys a fydd angen, at ddibenion llif arian, cael cytundeb lle mae Llywodraeth Cymru yn talu am waith adfer ymlaen llaw ac yna'n cael yr arian yn ôl gan y datblygwyr.<sup>114</sup>

**165.** Mae trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal am adeiladau amddifad:

*"What we mean by that is there's no developer to be traced [...] So, those buildings, we are just in the process of developing a scheme to cope with those buildings, and I'm hoping to make an announcement on that in the*

<sup>109</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Ionawr 2023, Papur 1

<sup>110</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Ionawr 2023, Papur 1

<sup>111</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 100

<sup>112</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 99

<sup>113</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 99

<sup>114</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 100

*very, very near future, so that we can start the work on these so-called 'orphan buildings' as well.*"<sup>115</sup>

## Ein barn ni

**166.** Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn parhau i fod yn gyfnod pryderus iawn i bobl sy'n byw mewn adeiladau canolig ac uchel yng Nghymru, a hefyd i lesddalwyr sy'n landlordiaid. Roeddem yn falch felly o glywed bod gwaith adfer yn cael ei wneud ar rai adeiladau erbyn hyn a bod y rhan fwyaf o'r arolygon wedi eu cwblhau. Byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn gallu ein diweddarau ar nifer yr arolygon sy'n weddill i'w cynnal.

**167.** O ystyried bod rhai arolygon eto i'w cynnal, rydym yn pryderu na all Llywodraeth Cymru benderfynu ar gyfanswm cost y gwaith adfer adeiladau a fydd yn cael ei wneud. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cyllid ar gael ar gyfer gwaith adfer, ond rydym yn poeni a fydd hyn yn ddigon ac, o ystyried y pwysau ariannol presennol ar Lywodraeth Cymru, o ble gallai unrhyw gyllid ychwanegol ddod.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi faint o arolygon sydd eto i'w cynnal a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn. Ar ôl cwblhau'r holl arolygon, dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Pwyllgor ar gyfanswm cost y gwaith adfer ac a oes ganddo ddigon o gyllid yn y dyraniad diogelwch adeiladau.

**168.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn trafod gyda'r datblygwyr ynghylch talu cost y gwaith adfer ymlaen llaw at ddibenion llif arian. Rydym yn pryderu bod risgiau sylweddol yn gysylltiedig â'r dull hwn.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi a oes ganddi ddigon o gyllid i dalu cost y gwaith adfer ymlaen llaw a pha asesiad sydd wedi'i wneud o'r risgiau cysylltiedig.

## Safonau tai

### Safonau tai cymdeithasol a datgarboneiddio

---

**169.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu dyraniad cyfalaf blynyddol o £108 miliwn drwy ei Llinell Wariant yn y Gyllideb Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Thaliadau Gwaddoli i gynorthwyo landlordiaid i gyflawni a chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru ("SATC"). Mae'r Llinell Wariant honno wedi aros ar yr un lefel yn nhermau arian parod ers blynyddoedd lawer. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o waith SATC (65 y cant o gostau) yn cael ei gyllido gan y landlordiaid

---

<sup>115</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 103

cymdeithasol eu hunain. Ymgynghorwyd ar safon newydd, SATC2. Mae disgwyl i'r safon newydd gael ei gweithredu yn 2023, a nodir ym mhapur y Gweinidog y rhagwelir y bydd yn mabwysiadu safon effeithlonrwydd ynni uwch newydd.

**170.** Ysgrifennodd y sector tai cymdeithasol atom ym mis Awst 2022 yn codi pryderon nad oedd modd cyflawni targed datgarboneiddio uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i'r holl dai cymdeithasol sicrhau Band A yn y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) erbyn 2033. Aethant ymlaen i ddweud y byddai'n rhoi pwysau aruthrol ar landlordiaid cymdeithasol a fyddai'n cael effaith sylweddol ar wasanaethau a'r gallu i adeiladu cartrefi newydd.<sup>116</sup>

**171.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn dod at derfyn trafodaethau am iteriad nesaf Safon Ansawdd Tai Cymru, a'i bod wedi cytuno gyda'n partneriaid awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol sut beth fydd y cam nesaf o ôl-osod ar gyfer cartrefi cymdeithasol.<sup>117</sup>

**172.** Mae dyraniadau cyfalaf o £92 miliwn ar gyfer 2023-24 a 2024-25 tuag at gefnogi datgarboneiddio preswyl. Nodir ym mhapur y Gweinidog y defnyddir y cyllid hwn yn bennaf i gefnogi'r sector tai cymdeithasol drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ("ORP").

**173.** Mae'r ORP yn canolbwyntio ar dai cymdeithasol, ond bydd yn hwyluso profi a dysgu i lywio'r gwaith ôl-osod ehangach hirdymor ar gyfer pob cartref, ar draws pob deiliadaeth yng Nghymru.<sup>118</sup> Fodd bynnag, nid yw'n glir pa gymorth y mae dyraniadau cyllideb yn ei ddarparu ar gyfer datgarboneiddio'r sector preifat.

**174.** Dywedodd y Gweinidog wrthym y canlynol am Lywodraeth Cymru:

*"We're very keen to work with private sector landlords to make sure that they are able to bring their housing to standard, and, of course, because we've just implemented the Renting Homes (Wales) Act 2016 [...] it means, of course, that it will drive standards in the sector."<sup>119</sup>*

**175.** Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

*".. we have a number of schemes to encourage private sector landlords to bring their homes to standard. What we don't want to have is a situation where a private sector landlord basically decides that it's not worth investing in the house for the return that they have, and then comes out of the market,*

<sup>116</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 29 Medi 2022, [Papur 5](#).

<sup>117</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 67

<sup>118</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Ionawr 2023, [Papur 1](#)

<sup>119</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 72

*because we rely on the public sector to house a significant proportion of the population. So, we need to work with our private sector landlords, the vast majority of whom are excellent landlords, to make sure that they are able to access finance to bring the houses up to standard.*"<sup>120</sup>

**176.** O ran cyllid ar gyfer datgarboneiddio'r sector preifat, clywsom fod Cynllun Prydlesu Cymru yn cynnig cymhellion sy'n gysylltiedig â'r ORP ar gyfer datgarboneiddio:

*"That's been quite successful. It's very, very new out, but we're hoping that it will be a real incentive for landlords to join the leasing scheme and to actually retrofit their homes."*<sup>121</sup>

**177.** Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru newydd fynd allan i gontract am ddarparwr ar gyfer ei hwb, a fydd yn darparu cyngor ac arweiniad i bob sector, gan gynnwys y sector rhentu preifat, ar ble y gallant gael cyngor a chynhyrchion o ansawdd da yn ymwneud ag ôl-osod.<sup>122</sup> Mae ganddi hefyd ambell brosiect peilot cynnar sy'n cael eu rhedeg gan y banc datblygu, yn edrych ar fodolau cyllid a chymorth yn y sector preifat.<sup>123</sup> Yn olaf, clywsom fod ymyriadau nad ydynt yn ymwneud â thai yn y maes ynni i ddod â chartrefi i fyny i safon:

*"... what we're looking to do is improve entire communities, rather than one home in each street. So, we've been running an audit with our local authorities across all homes in Wales, and then we're looking to see where the least well insulated, the hardest to heat, the hardest to maintain homes are, and then looking for community initiatives as part of our energy programme to bring those homes up to standard as well."*<sup>124</sup>

**178.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y ffaith fod prisiau'n gostwng yn y farchnad dai yn helpu i godi safonau mewn gwirionedd:

*"... one of the interesting effects of a falling market is that our SME builders are very keen to sell to us off plan, and in an odd twist of fate, that means we can actually acquire more houses, and it also means that we can drive standards through, because, of course, unless they build them to the standard we require, we can't buy them off plan."*<sup>125</sup>

---

<sup>120</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 72

<sup>121</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 73

<sup>122</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 75

<sup>123</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 75

<sup>124</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 76

<sup>125</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 35

---

## Ein barn ni

**179.** Yn ogystal ag wynebu argyfwng costau byw, rydym hefyd yn wynebu argyfwng newid hinsawdd. Rydym yn falch felly, er gwaethaf y pwysau ariannol sydd ar Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, nad yw'n gostwng safonau fel mesur arbed costau. Rydym yn gobeithio y bydd trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol ynghylch iteriad nesaf Safon Ansawdd Tai Cymru yn arwain at dargedau datgarboneiddio sy'n uchelgeisiol, ond hefyd yn y gyflawnadwy o ystyried y pwysau ar y cyflenwad tai ledled Cymru. Credwn fod angen i dargedau datgarboneiddio gael eu cydbwysu â'r angen brys i ddarparu mwy o dai ledled Cymru.

**180.** Rydym hefyd yn croesawu'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar gyfer datgarboneiddio'r sector preifat drwy gynlluniau amrywiol, ond mae angen gwneud mwy. Rhaid i'n stoc tai fod yn garbon isel os yw Llywodraeth Cymru am gyrraedd ei tharged sero net, a rhaid i ni hefyd allu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, felly rydym yn falch o weld Llywodraeth Cymru'n buddsoddi'n awr i helpu cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng bodloni gofynion yr argyfwng hinsawdd a mynd i'r afael â phwysau tai.

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau cydbwysedd rhwng bodloni gofynion yr argyfwng hinsawdd a mynd i'r afael â phwysau tai.

## Addasiadau

**181.** Gall dyraniadau cyllid at ddibenion tai o yn y Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, cefnogi gwell canlyniadau iechyd a lleddfu'r pwysau ar y GIG. Mae nifer o ddyraniadau'n canolbwyntio ar addasiadau tai.

**182.** Mae'r Rhaglen Addasiadau Brys yn cael dyraniad cyfalaf o £19.5 miliwn yn 2023-24 ac yn 2024-25. Mae hyn yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r rhaglen Galluogi gan ddefnyddio pwerau cymorth dewisol, yn hytrach na thrwy'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl statudol a fyddai'n golygu bod angen defnyddio prawf modd gyda'r ymgeisydd. Mae hefyd yn ariannu Gofal a Thrwsio i ddarparu mân addasiadau ac addasiadau ar gyfer cymdeithasau tai. Y brif ffynhonnell arall o gyllid ar gyfer addasiadau yw Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl awdurdodau lleol. Ariennir y rhain drwy adnoddau cyfalaf cyffredinol yr awdurdodau lleol eu hunain.

**183.** Cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig ar gael gwared ar y prawf modd ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl bach a chanolig ym mis Mawrth 2021, lle dywedodd:

*"Mae ein data mwyaf diweddar yn dangos mai addasiadau bach a chanolig oedd y mwyafrif llethol o GCA – 1,507 bach a 2,214 canolig – o gymharu a*

*dim ond 269 o addasiadau mawr. Os dilëwn y prawf modd, mae ymchwil annibynnol yn cyfrifo y byddai'n golygu cost ychwanegol ar lywodraeth leol yng Nghymru o £238,000, ac mae'n amcangyfrif y byddai pob awdurdod lleol yn arbed £6,000-£10,000 bob blwyddyn mewn costau gweinyddol."*

**184.** Ymatebodd Gofal a Thrwsio Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft. Er bod y sefydliad yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid a gafodd yn 2022-23, nododd fod costau byw, a chynnydd eraill mewn costau, yn golygu nad oedd modd ehangu ei wasanaethau, er gwaethaf cynnydd yn y galw a achoswyd yn rhannol gan ôl-groniadau oherwydd Covid. Dywed Gofal a Thrwsio:

*"... the increased capital has been offset by large increases in contractor and materials costs caused by inflation, soaring energy prices, increased transport and supplies costs."*<sup>126</sup>

**185.** Tynnodd y Gweinidog sylw at gynnydd mewn dyraniadau sy'n cefnogi addasiadau yn y Gyllideb Derfynol:

*"we've increased the final budgets for all of these schemes [...] And we've reflected in that the real need to keep people in their own homes, for a variety of reasons [...] and actually, this is an invest-to-save programme, really [...] where we've had some really searching conversations about is it better to put things into these preventative programmes, or is it better to help the people who already find themselves at the sharp end."*<sup>127</sup>

**186.** Esboniodd y Gweinidog fod cyllid wedi'i roi ar waith i ganiatáu i addasiadau bach a chanolig gael eu gwneud heb brofion modd. Yn ôl y Gweinidog:

*"That increases the rapidity of the response and, of course, it keeps people in their own homes longer, relieves the pressure on the NHS—it absolutely does—and also, actually, of course, it's part of the whole push to keep people in their own homes for a variety of reasons, not least their mental health. We know that people are better off in their own homes."*<sup>128</sup>

**187.** Awdurdodau lleol sy'n gweinyddu addasiadau bach a chanolig, a galwodd y Gweinidog arnynt i gefnogi hyn.<sup>129</sup>

---

<sup>126</sup> Y Pwyllgor Cyllid, [Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 23-24.18 Gofal a Thrwsio Cymru](#)

<sup>127</sup> Paragraff 85

<sup>128</sup> Paragraff 78

<sup>129</sup> Paragraff 78

## Ein barn ni

**188.** Mae addasiadau tai yn gwneud cyfraniad pwysig iawn at fywydau pobl, gan eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain a lleddfu'r pwysau ar y GIG. Fodd bynnag, nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan Gofal a Thrwsio Cymru nad oedd modd i'r sefydliad ehangu ei wasanaethau oherwydd costau uwch. Mae gwasanaethau addasu yn faes allweddol o wariant ataliol a dylid targedu adnoddau Llywodraeth Cymru yn effeithiol er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno addasiadau yn gyflym i'r rhai sydd eu hangen.

**189.** Rydym yn croesawu cael gwared ar brawf modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig, yn enwedig gan mai'r rhain oedd y mwyafrif o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn flaenorol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu a yw awdurdodau lleol yn deall y gellir gwneud addasiadau o'r fath heb brawf modd, o ystyried bod y Gweinidog wedi defnyddio'r Pwyllgor i roi cyhoeddusrwydd i'r alwad ar awdurdodau lleol i gefnogi hyn. Rydym yn gwerthfawrogi bod cael gwared ar y profion modd wedi arwain at gostau uwch i lywodraeth leol ond, fel y dywedodd y Gweinidog, mae hon yn rhaglen buddsoddi i arbed. Mae cefnogi pobl i fyw gartref yn lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau nad ydynt yn cynnal prawf modd ar addasiadau bach a chanolig. Gofynnwn hefyd i Lywodraeth Cymru rannu'r data diweddaraf am addasiadau gyda ni. Gobeithiwn y bydd y data hwn yn dangos bod addasiadau bach a chanolig yn cael eu darparu heb brawf modd.

**Argymhelliad 21.** Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol i wella mynediad at addasiadau a lleihau amseroedd aros. Dylai hefyd roi'r data diweddaraf i'r Pwyllgor ar addasiadau, gan gynnwys data ar faint o addasiadau bach a chanolig sy'n cael eu darparu heb brawf modd.

## Gweithredu a datblygu deddfwriaeth

**190.** Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer cyllid refeniw Polisi Tai yn cael dyraniad o £6.471 miliwn yn 2023-24 ac yn cynorthwyo nifer o gynigion deddfwriaethol, yn ogystal â chymorth ar gyfer cynllun peilot ail gartrefi Dwyfor, Gofal a Thrwsio a hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru ar gyfer landlordiaid. Mae nifer o gynigion deddfwriaethol ym mhortffolio'r Gweinidog. Mae ymrwymadau penodol y Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys:

- Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn eu hanfod er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym;

- Diwygio'r system diogelwch adeiladau bresennol, gan gynnwys ail gam Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru, fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi;
- Deddfu i weithredu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â diwygio lesddaliadau;
- Gweithredu'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i roi mwy o sicrwydd i rentwyr a datblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu ar rent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref;
- Cyhoeddi Papur Gwyn i gyflwyno cynigion ar gyfer yr hawl i gartrefi digonol, gan gynnwys rhenti teg a ffyrdd newydd o wneud cartrefi'n fforddiadwy i'r rhai ar incymau lleol.

**191.** Clywsom gan y Gweinidog fod y ddeddfwriaeth ar draws ei phortffolio ar y trywydd iawn i gael ei chyflwyno yn y flwyddyn y bwriedir ei chyflwyno ond ei bod yn ddibynnol ar ddeddfwriaeth sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac sy'n cael ei gosod gerbron y Senedd yn cael ei phasio, fel bod modd symud timau'r Bil oddi yno i'r darn nesaf o waith.<sup>130</sup>

**192.** Ychwanegodd un o swyddogion y Gweinidog:

*"I think the biggest issue is the skilled resource that is needed to do this as well. The Government's got a significant legislative programme, which they want us to get through, which is quite right, but it's getting the resources in the right place at the right time [...] And, also, the central services main expenditure group, which a lot of this is paid from, has had a reduction, like everywhere else within Government. We haven't been protected from that. So, again, it's getting the balance and the optimisation so that we can take some of this through, but, as the Minister said, everything is on track in her area at the moment."<sup>131</sup>*

**193.** Clywsom fod ymarfer gwersi a ddysgwyd o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn cael ei gynnal.<sup>132</sup>

**194.** Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal adolygiad o Rhentu Doeth Cymru yn ddiweddarach yn 2023. Dywedodd y Gweinidog:

---

<sup>130</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 131

<sup>131</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 139

<sup>132</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 134



*"One of the things we will be looking at is whether we want them to do more things for us, and whether the data we currently get from them enables us to do a number of other things with it."<sup>133</sup>*

## Ein barn ni

**195.** Roeddem yn falch o glywed bod y ddeddfwriaeth ar draws portffolio'r Gweinidog ar y trywydd iawn i gael ei chyflwyno yn y flwyddyn y bwriedir ei chyflwyno. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog ein diweddarau ynghylch pryd y disgwylir i ddeddfwriaeth dai gael ei chyflwyno er mwyn i ni allu cynllunio ein rhaglen waith yn unol â hynny.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru roi amserlen i'r Pwyllgor ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth yn ymwneud â thai.

**196.** Er i'r Gweinidog ddweud bod y ddeddfwriaeth ar y trywydd iawn ar hyn o bryd, roedd clywed mai'r her fwyaf o ran darparu'r rhaglen ddeddfwriaethol yw'r adnoddau medrus sydd eu hangen yn peri pryder. Byddwn yn tynnu sylw'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y pryder hwn.

**197.** Rydym yn croesawu'r ymarfer gwersi a ddysgwyd sy'n cael ei gynnal mewn perthynas â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a gofynnwn i Lywodraeth Cymru rannu'r canfyddiadau gyda'r Senedd maes o law, gan gynnwys sut y bydd yn gweithredu ar unrhyw wersi a ddysgwyd yn neddfwriaeth y dyfodol.

**198.** Rydym hefyd yn croesawu'r adolygiad o Rhentu Doeth Cymru a gofynnwn i Lywodraeth Cymru rannu ei chanfyddiadau gyda ni. Byddem hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried, fel rhan o'i hadolygiad, a allai Rhentu Doeth Cymru wneud llai, yn ogystal â gwneud mwy.

## 4. Cefnogi pobl o Wcráin

**199.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £40 miliwn yn 2023-24 ac £20 miliwn yn 2024-25 i awdurdodau lleol i'w galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sy'n ffoi o'r rhyfel yn Wcráin. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wrthym, yn ôl asesiad gwreiddiol Llywodraeth Cymru o'r arian sydd ei angen i barhau i gyflawni ei chynllun uwchnoddwr Cartrefi i Wcráin yn 2023-24 a 2024-25, y byddai'r cyllid a ddyrannwyd yn ddigonol.<sup>134</sup> Dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd wrthym fod y cynllun uwchnoddwr, gan gynnwys llety a chymorth cofleidiol, yn cael ei ariannu drwy gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru, ac mai nod y £40

<sup>133</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 125

<sup>134</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 176

miliwn a ddyrennir yn 2023-24 yw sicrhau bod pobl sy'n ffoi o'r rhyfel yn parhau i gael lle diogel a noddfa yng Nghymru. Ychwanegodd y Gweinidog Newid Hinsawdd mai nod yr £20 miliwn sydd wedi'i ymrwymo ar gyfer 2024-25 yw sicrhau bod ein hawdurdodau lleol sydd dan bwysau ariannol gwirioneddol yn gallu parhau i gynnig y gwasanaethau rydym wedi'u rhoi ar waith.<sup>135</sup>

**200.** Cyfeiriodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at gyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 14 Rhagfyr 2022 na fydd yn darparu cyllid blwyddyn 2 i ddeiliaid fisa Cartrefi i Wcráin, gan ddweud bod hynny'n hynod siomedig a bod diffyg eglurder ynghylch unrhyw dariff blwyddyn 3 neu gronfa amgen i barhau i gefnogi pobl sy'n dod o Wcráin hefyd yn peri pryder. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wrthym fod y costau cyffredinol o gefnogi pobl sy'n dod o Wcráin yn gostwng, gan esbonio:

*"We are able when people arrive from Ukraine to support them to access benefits. I know lots of people from Ukraine are now in work and so on, so we are seeing people become more settled, and as they become more settled, the costs to the Government decrease over time."<sup>136</sup>*

**201.** Ychwanegodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y bydd rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

*"keep a very close eye on the spend that is required for supporting people from Ukraine, but overall, there's no more room within the budget for further allocations within the next financial year."<sup>137</sup>*

## Ein barn ni

**202.** Rydym wedi bod yn ymchwilio i'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i bobl Wcráin ers mis Mawrth 2022 ac rydym wedi croesawu cynllun uwch-noddwr Llywodraeth Cymru a'r camau eraill y mae wedi'u cymryd i ddarparu cartrefi i bobl mewn angen. Rydym yn croesawu'r dyraniadau cyllid yn y gyllideb ddrafft, ac ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r cynllun. Rydym yn gwybod bod cyfrifoldebau ychwanegol sylweddol yn cael eu rhoi ar awdurdodau lleol ar adeg pan fo cyllid eisoes dan bwysau, felly mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y cyllid sydd ar gael i lywodraeth leol at y dibenion hyn yn ddigonol.

**203.** Rydym yn ymwybodol bod y tariffau cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol yn seiliedig ar dariffau blaenorol ar gyfer cynlluniau ffoaduriaid, megis i'r rhai o Syria ac Affganistan. Nid ydym yn glir pam mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu lleihau'r tariff ac a yw hyn yn seiliedig ar y

---

<sup>135</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2023, paragraff 6

<sup>136</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 176

<sup>137</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 12 Ionawr 2023, paragraff 177

---

math o gymorth sydd ei angen ar gyfer y grŵp penodol hwn, er enghraifft, i ystyried y ddemograffeg amrywiol rhwng cynlluniau neu gyfraddau cyflogaeth uwch. Hoffem gael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys dadansoddiad manwl o'r dyraniadau cyllid.

**204.** Clywsom, drwy ein gwaith ar gefnogi pobl o Wcráin, am yr angen i fod yn ystyriol o ffoaduriaid o wledydd eraill a allai deimlo nad ydynt yn derbyn yr un lefel o gymorth â'r rhai o Wcráin. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fod yn ymwybodol o ganfyddiadau o'r fath ac i sicrhau bod digon o gyllid wedi'i ddyrannu i gyflawni ei hymrwymiad i fod yn Genedl Noddfa.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y cyllid a ddarperir yn y gyllideb ddrafft i gefnogi pobl o Wcráin, gan gynnwys dadansoddiad manwl o'r dyraniadau.

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y mae cyllid yn y gyllideb ddrafft wedi'i ddyrannu i gyflawni ei hymrwymiad i fod yn Genedl Noddfa, gan gynnwys sut y bydd y gyllideb yn cefnogi ffoaduriaid o wledydd heblaw Wcráin.